YR YMOFYNYDD.

RHIF. 19.] MAWRTH, 1849. [CYF. II.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD, ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."---GOL.

Y BERTHYNAS SYDD RHWNG CRISTNOGAETH A METAPHYSICS NEU PHILOSOPHI Y MEDDWL.

YR oeddem yn bwriadu cynnyg Traethawd ychwanegol ar "Y Pab a Phabyddiaeth," er mwyn nodi rhai o ystrangciau rhyfygus twyll-offeiriadaeth, a'i gelyniaeth, o oes i oes, i ryddymofyniad mewn pethau crefyddol. Nid ydym wedi rhoddi y bwriad i fyny; ond rhaid i ni ei roddi heibio y tro hwn er mwyn gwneuthur ychydig sylwadau ar egwyddor nid gwbl ddieithr i'r un testun; sef, *y dylai pregethwyr Cristnogaeth fod yn Metaphysicians*, ond *na ddylent drafod metaphysics yn y pwlpid.* Cyfeirio yr ydym at ran o'r llythyr ar "Bregethwyr Cymru," tud. 32 o'n Rhifyn diweddaf. Dywed yr ysgrifenydd am Bregethwyr Undodaidd "y caent lawer mwy o wrandawiad pe delient lai mewn *metaphysics* a mwy mewn Cristnogaeth," &c.

Beth mae e'n feddwl wrth *metaphysics*, mewn cyferbyniad â Christnogaeth? Nid yw esbonio y gair Groeg trwy air Cymraeg newydd, "goranianaeth," yn rhoi un goleu ar ei feddwl!

Arferir y gair *metaphysics* gan lawer i arwyddo pethau dyrys ac anneallad wy. Pan fyddo dyn yn llefaru am bethau ag nad yw ei wrandawyr yn eu deall, nac yntau ei hun ychwaith yn eu deall; mai dyma beth yw metaphysics. Ond dynion anwybodus neu gellweirus yn unig sydd sydd yn dywedyd fel yna am gangen werthfawr o wybodaeth—dynion twpa neu ddiog ag sy'n ceisio gwneud yn fach o gyrhaeddiadau na sydd yn eu meddiant hwy. Byddai yn annheg i gyfrif i Mr. D. L. E. yr olwg isel yma ar metaphysics, canys fe ddywaid yn bendant mai "pell yw o'i feddwl na ddylai pregethwyr fod yn metaphysicians; y metaphysician, goreu ddywed leiaf o ffolineb." Ond beth mae e'n feddwl wrth metaphysics? Rhaid i ni gymeryd ei fod yn defnyddio y gair yn ei ystyr gyffredin a chymeradwy fel yn arwyddo philosophi y meddwl—neu ymresymu ynghylch bodau neu sylweddau anweledig a gor-anianol; chwilio a chymharu eu priodoleddau a'u perthynasau â'u gilydd, a'u heffeithiau. Os hyn yw meddwl y gair; yna y mae pob dyn pwyllog i ryw fesur yn metaphysician—pob dyn ag sy'n meddwl am ryw beth heblaw y byd allanol, a phob Cristion meddylgar yn fwy nâ neb, a bod yn sicr. Defnyddio rheswm gyda chrefydd, chwilio am nodau y gwirionedd er profi cyssondeb ein ffydd; chwilio i mewn i athrawiaeth a gynnygir, pa un a ydyw yn gysson â hi ei hun, ac yn gysson â gwirioneddau adnabyddus; cymharu â'u gilydd y gwirioneddau ynghylch bodoliaeth a pherffeithderau y Duw anweledig, yr amlygiad o'i ewyllys a threfniadau ei lywodraeth—pa beth yw hyn i gyd ond y metaphysics ardderchocaf? Cymharu ffeithiau a dadguddiadau Cristnogaeth, tynu casgliadau oddiwrthynt perthynasol

i'n cyflwr a'n dysgwyliadau, a'u cyfleu at achosion bywyd a duwioldeb; dyma waith y metaphysician Cristnogol. Pa Gristion deallus a ddymuna glywed "llai" o'r pethau hyn; ie, a foddlona beidio â bod yn metaphysician? Os mynir pregethu Cristnogaeth heb metaphysics, rhaid gadael heibio ymresymu. Nyni a ymbiliwn ar ein brodyr Undodaidd i dreulio eu hoes o dan y gwawd a'r gwrthwynebiad yn hytrach nâ rhoddi i fyny ymresymu yn erbyn amryfusedd a chyfeiliornadau'r byd. Nid ydym ni yn gweled un cymhwysder yn y cynghor iddynt "ddelio llai mewn metaphysics a mwy mewn Cristnogaeth."

Nid cyhuddiad newydd yw hwn o eiddo Mr, D. L. E. Dygwyd ef lawer gwaith o'r blaen yn erbyn pregethwyr Undodaidd, a hyny gan ddau fath o ddynion. Yn gyntaf, gan eu gwrthwynebwyr Trindodaidd, y rhai a'u cyhuddent o fod yn rhyfygus, o ymresymu lle y dylent ymostwng i dderbyn yr hyn a ddysgir, ac o osod rheswm uwchlaw yr ysgrythyr, &c. Deallir yn rhwydd achos ac amcan yr achwyniad pan y mae yn dyfod oddiwrth y dosparth yna. Sylfaenant hwy eu cred ar haeriadau tra metaphysical y rhai ni fynant fod un ymchwiliad iddynt gan wrthwynebwyr. Pa beth yw athrawiaeth y Drindod, neu'r amrywiaeth personau yn yr Hanfod Ddwyfol ond haeriad, neu gasgliad metaphysical? Pa beth ond hyny yw yr haeriad fod y ddwy natur yn Nghrist? Beth arall yw yr haeriad a glywir mor gyffredin fod pob pechod yn anfeidrol? &c, Nis honir gan neb oddieithr yr anwybodus fod yr haeriadau hyn i'w cael yn y Bibl. Llafurwaith metaphysics o ryw fath neu gilydd ynt i gyd. Nid oes le i ddysgwyl y gellir eu symud heblaw drwy ddangos yn gyntaf eu bod yn wallus neu yn gamsyniol; na modd i'w gwrthwynebu yn gyfiawn oddieithr ar yr un tir ag y sylfaenid hwynt, a hyny yw, ar dir ymresymiad. Chwareu têg i metaphysics, ddywedwn ni.

Y dosparth arall blin genym weled a gynnwys rai Undodiaid proffesedig ac ereill a deimlant yn bur dawel o ran un niwed a all fod o gyfeiliorni mewn barn. Nid gwaeth beth fyddo syniadau crefyddol dyn, medd y rhai'n, ond iddo fod yn ddyn da. Dywedant yn erbyn cael dadleuaeth neu metaphysics yn y pwlpid, fel yn anfoneddigaidd, ac yn tueddu i gyffroi a chlwyfo teimladau. Mor dyner maent i ragfarnau a chamsyniadau eu cyd-ddynion! Byddai dadleuaeth dreiddiol yn erbyn meddwdod, balchder, cybydd dod, neu rhyw ddrwg arall, yn debyg o roddi tramgwydd o herwydd yr un rheswm, yn mron gymaint â phe bai yn erbyn rhyw gyfeiliornadau mewn athrawiaeth. Pe buasent yn gwrandaw ar Paul yn "ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd," byddent, ond odid, yn barod i ddweyd fod yr apostol yn "delio gormod mewn metaphysics."

Geiriau a geir yn aml yn ngenau dynion o'r dosbarth yma yw, mai "yn gadarnhäol y dylid pregethu yr efengyl, ac nid yn nacäol;" wrth yr hyn y meddyliant, debygem, mai priodol swydd pregethwr Cristnogol yw, yn unig i gyhoeddi i'r bobl beth sydd wirionedd, a dangos iddynt beth yw eu dyledswydd. Ymddengys fod ysgrifenydd yr erthygl ar "Bregethwyr Cymru" yn tueddu i fod o'r farn hon. Dywed ef fod metaphysics yn anghenrheidiol i bregethwyr, er eu cadw rhag "dywedyd ffolineb;" ond am y gwrandawyr, druain, rhaid iddynt hwy fod heb metaphysics, hyny yw, i fod heb y peth ag sydd yn diogelu ei berchenog rhag syniadau ffol! Dywed mai "gwell nâ myned trwy ymresymiad goranianawl (metaphysical ratiocination) yn y pwlpid fyddai sylfaenu sylwedd y bregeth ar wirioneddau goranianaeth (metaphysical truths) y rhai ydynt yn wastad yn gysson â gwirioneddau Cristnogaeth."

Rhaid i ni ddwyn ein tystiolaeth bendant yn erbyn yr egwyddor a gynnwysir yn y geiriau, ac yn erbyn y rheol a gynnygir ynddynt i bregethwyr a gwrandawyr i'w dilyn.

Y mae yn groes i'r egwyddor o rydd-

ymofyniad, ac i hawl a dyledswydd pob dyn i farnu drosto ei hun. A ydyw y gwrandawyr i gymeryd yn ganiatäol fod "sylwedd y bregeth wedi ei sylfaenu" ar metaphysics cywir? Os cymerir y sylfaen yn ganiatäol, paham nad y bregeth yn gyfan?

Y Sabboth a'r pwlpid a roddant yr unig gyfleusdra braidd i'r rhan amlaf o weithwyr i gael chwilio a dysgu gwirioneddau'r nef, a barnu drostynt eu hunain am grefydd a duwioldeb. Eraill a gânt gyfle i ddarllen gartref yn yr wythnos. Gadawer fod y pregethwr wedi sylfaenu sylwedd ei bregeth ar wirioneddau metaphysics; ond yn mha fodd mae y gwrandawyr i gael sicrwydd ei fod wedi gwneuthur felly? Os ydyw y pregethwr wedi "myned trwy ymresymiad goranianawl" cyn ei ddyfod i'r pwlpid, a thrwy hyny wedi ei ddwyn i weled ei ffordd yn glir ar y pwngc a drafoda, beth sydd i'w rwystro i roddi o flaen ei wrandawyr y rhesymau ag sydd yn argyhoeddiadol i'w feddwl ei hun, fel y gallont hwythau hefyd weled eu ffordd yn glir? Os yw metaphysics wedi gwneuthur cymaint dros y pregethwr, paham na wnant yr un cymaint dros y gwrandawyr. Y maent yn meddu ar yr un cynneddfau meddwl ag yntau, a'r un anghenion ysbrydol? Beth all fod yr ysgrifenydd yn feddwl wrth hyn—"I ddywedyd beth ydyw o'r gloch wrth yr oriawr, nid oes eisiau esbonio cyfansoddiad y machine sydd yn troi y pinau?" Pe buasai y Pab i ddywedyd hyn am ei gloc anffaeledig ef, ni fuasem yn rhyfeddu; nac ychwaith pe buasai yr esgobion yn dweyd yn gyffelyb am yr hen gloc sydd ganddynt hwy wedi ei wneud yn ol Act of Parliament. Eu meddwl mae'n amlwg fyddai, y dylai dynion ymostwng i'r awdurdodau a derbyn eu credo yn ddi-ymchwiliad. Ond beth oedd Mr. D. L. E. yn ei feddwl, nis gallwn ddirnad. Nid oes eisiau ei ddysgu of nad yw dynion i gymeryd eu credo, fel y cymerant eu clociau, ar air dyn arall. Ein crêd ni modd-bynag yw, mai mewn crefydd (a dilyn y gymhariaeth) *every man his own clockmaker* yw yr iawn reol; ac o ganlyniad ei fod yn anghenrheidiol i bob crefyddwr wybod rhywbeth am "gyfansoddiad y machine sydd yn troi y pinau," neu ynte ymddiried y peth i arall.

I.

AI Y NATUR DDYNOL, NEU Y BIBL YW SYLFAEN CREFYDD?

Attebiad i Philo, tud. 365, *Cyf.* I.

Mr Ymofynydd,—Yr wyf yn cymmeryd yn ganiattaol fod eich misolyn yn gyhoeddiad rhydd, ac ar bwys y dyb hon yr wyf yn anturio i osod fy marn o flaen y cyhoedd ar yr hyn a ymddengys i mi yn gyfeiliornad nid bach ei bwys, i'r hwn y mae eich gohebydd llafurus, Philo, wedi syrthio.

Yn yr *Ymofynydd* am fis Rhagfyr diweddaf, tudal 365, dywed fel hyn: "Y mae gwir grefydd o ddwyfol darddiad, ond y mae pob esboniad o honi mewn llyfrau o angenrheidrwydd yn ddiffygiol. Yr oedd crefydd yn y byd cyn bod llawysgrifau, na llyfrau, nac adysgrifenwyr, nac argraffwyr; a phe darfyddai holl lyfrau'r byd ar unwaith, byddai y greadigaeth er hyny yr un; byddai dynoliaeth yn ddigyfnewid. Nid y Bibl yw sylfaen crefydd, ond y natur ddynol." Y mae yr un meddwl yn cael ei osod i lawr ganddo etto yn tudal 366, lle y dywed: "Cymhorth i grefydd yw'r Bibl ac nid ei sylfaen. Y natur ddynol yw sylfaen crefydd. Y mae y Creawdwr wedi planu crefydd yn anian dyn. Cyn y gall dyn beidio bod yn greadur crefyddol, rhaid iddo beidio â bod yn ddyn."

Yn yr ychydig linellau uchod ni a gawn dri gosodiad o leiaf; sef, yn gyntaf, fod Duw wedi *planu crefydd yn*

anian dyn: yn ail, *fod dynoliaeth yn ddigyfnewid:* yn drydydd, yr hyn sydd yn canlyn yn natturiol oddiwrth y gosodiadau blaenorol, sef, mai *nid y Bibl yw sylfaen crefydd, ond y nattur ddynol;* a phe *darfyddai* HOLL lyfrau'r byd ar unwaith, a'r *Bibl* gyda hwynt wrth gwrs, ni allai dyn beidio bod yn greadur *crefyddol,* mwy na pheidio bod yn ddyn.

Yn wir, Mr. Philo, yr ydych wedi gwneuthur haeriadau chwimmwth, dros y fraich; ac, fel yr ymddengys i mi, hollol gamsyniol hefyd; ond at y cyntaf; sef, fod *Duw wedi planu crefydd yn anian dyn.* Yr oeddwn i, er ys blynyddau lawer, yn meddwl (ac yr wyf o'r un farn etto er dim a ddywedasoch chwi) mai gwybodaeth ac egwyddorion yn tarddu oddiar y wybodaeth honno, ydyw crefydd; i'w chyrhaedd, ïe, ac yn *raddol iawn* hefyd, fel pob gwybodaeth a greddfau eraill; ac nid greddf wedi ei phlanu yn anian dyn, yn cael ei geni gydag ef fel ei ddau lygad neu ei ddau glust, yn gweled a chlywed gynted y genir ef i'r byd. Y mae yn ymddangos i mi mai athrawiaeth yr "*innate ideas,*" *with a vengeance,* sydd gennych. Y mae hon, syr, wedi myned allan o *ddate,* mae ei dydd wedi myned heibio, Y mae yr anfarwol Locke wedi ei darnio yn llaprau; a'r gwir fawr Dr. Priestley wedi ei malurio'n llwch, a'i chwythu ymaith ag anadl ei ymresymiad, fel y mae ffordd rydd gan yr Undodwr, a phob un arall a fynno ymryddhau oddiwrth gadwyni cyfeiliornad a fuont yn hir yn dàl y meddwl yn gaeth. Duw wedi plànu *crefydd* yn anian dyn, aïe! Pa grefydd, syr, attolwg?—Iuddewaeth yn anian yr Iuddew;—Trindodiaeth yn anian y Trindodwr;—Undodiaeth yn anian yr Undodwr;—Eilunaddoliaeth yn anian y Pagan;—Didduwiaeth yn anian yr *Atheist;*—ïe, syr a *dim,* dim *un grefydd* yn anian y plentyn, nes y caffo hi o ryw le; pe amgen, a ydych chwi yn meddwl y gwnai y plentyn dderbyn crefydd *gan* y rhieni, ag yntau a *chrefydd Duw, gwir* grefydd, ganddo eisioes yn *blanedig* yn ei anian? A wnai efe dderbyn crefydd y Drindod ag yntau yn Undodwr wrth nattur, wedi ei wneuthur felly gan Dduw ei hun? A wnai efe gofleidio Eilunaddoliaeth, yr hon sydd ffiaidd gan yr Arglwydd, ag yntau a gwir grefydd ganddo yn barod yn ei anian? A wnai efe wadu bodoliaeth yr hwn a'i crëodd, os y darfu ei Greawdwr blannu y gwirionedd pwysig am ei fodoliaeth yn ei anian? Na, na, gyfaill, nid felly hefyd; ac felly nid cyw'r eich haeriad chwithau, fod Duw wedi plannu crefydd yn anian dyn. Y mae dyn yn cael ei eni i'r byd yn ddiamheu yn berffaith rydd oddiwrth un llygredd; ond y mae efe hefyd yn hollol rydd oddiwrth bob daioni. Nid oes ganddo nac egwyddorion drwg na da; nid ydyw yn anghrefyddol, ond nid ydyw yn grefyddol chwaith; nid ydyw yn gwadu bodoliaeth Duw, ac nid ydyw yn ei gredu chwaith. Ni ŵyr efe etto ddim am danynt. Papyr gwyn ydyw, a derbyn y cwbl raid iddo. Os mewn amgylchiadau drwg y caiff ei osod, drwg fydd yr argraffiadau; ond os da, da fydd yr argraffiadau hefyd. Y mae'r plentyn yn awyddus i gyrhaedd dedwyddwch, a gochelyd poen; ac ni wn i am un reddf arall sydd yn cael ei geni gydag ef i'r byd, neu yn ol eich iaith chwi, wedi ei phlannu yn ei anian. Gystal y gallasech ddywedyd fod *philosophyddiaeth* Newton a *mathematics La Place* wedi eu plannu yn anian dyn, a bod crefydd wedi ei phlannu yno. Creadur ydyw dyn sydd yn gweithredu yn ol yr annogaeth grefaf yn wastadol; y mae ef yn *rhwym* wrthi; ac un o'r annogaethau cryfaf i lywodraethu ei ddewisiad a'i weithrediad ydyw crefydd; ond nid yw crefydd ddim yn blanedig yn ei anian mwy nâ *mathematics;* trwy *argyhoeddiad,* ac argyhoeddiad yn *unig,* y mae plannu y naill yn gystal â'r llall ynddo; hon yw yr unig ffordd sydd gan Dduw i roddi crefydd i ddyn. Bu dynion yn hir, ac y mae llawer yn awr, o'r dyb fod cydwybod yn reddf wedi ei phlannu yn anian dyn; ond chwi, syr, yw yr unig un a glywais i sôn am dano erioed a wnaeth yr haeriad fod *crefydd* wedi ei phlannu yn ei anian.

Yn ail. Dywedwch fod dynoliaeth (y

nattur ddynol, bid sicr,) yn *ddigyfnewid.* Ni siaradaf nemawr â chwi am hyn; oblegid gwyddoch, neu o leiaf, gallwch wybod yn well, lle y mae gennych gynnifer o enghreifftiau a flaen eich llygaid yn feunyddiol i'r gwrthwyneb, fod dyn *yn cyfnewid* yn barhaus, o ran ei gorph, o ran ei feddwl, o ran ei foesau, ïe, ac o ran ei *grefydd* hefyd. Y mae pob meddwl newydd y mae'n gael yn creu cyfnewidiad ynddo; ac yr wyf yn gobeithio nad ydych chwi eich hun, syr, ddim yn hollol ddieithr i'r fath gyfnewidiad, onidê ofer fyddai dywedyd rhagor wrthych; ofer darllen; ofer pregethu; ofer ceryddu; ofer hyfforddi mewn un modd. Ond yr wyf yn hyderu nad ydych yn eithriad, a'r unig un hefyd, oddiwrth holl deulu dyn yn hyn.

Yn drydydd. Dywedwch "mai nid y Bibl yw sylfaen crefydd, ond y nattur ddynol; a phe darfyddai holl lyfrau'r byd ar unwaith, na allai dyn beidio bod yn greadur crefyddol." Beth! beth a ddywedasoch? Nid y Bibl yw sylfaen crefydd! O! ïe'n wir, syr, a'r unig sylfaen safadwy hefyd. Nid ei wallau, mae'n wir, ond ei wirionedd tragywyddol. O bob peth a roddodd y Duw mawr i ddyn, ei ewyllys ddadguddiedig yw'r bennaf tuhwnt i gymhariaeth. Wrth edrych arnaf fy hunan, i mewn ac allan, darfodedigaeth wyf yn ganfod. Y mae'r llaw sydd yn awr yn ysgrifenu'r llinellau hyn ar grefydd, y pwysicaf o bob pwngc, ymron ysgrifenu'r gair olaf; y mae fy nghalon i roddi heibio ei churiadau heb fod yn hir; aiff fy nhafod yn fud cyn nemawr o amser; y mae fy holl gorff, a'm meddwl hefyd yn dwyn nodau dadfeiliad; pob peth yn dywedyd yn eglur wrthyf "Y bedd sydd dŷ i ti;" sylfaen wan iawn i mi obeithio yn ngwyneb angau!! Ond er nad oes dim ond golwg bruddaidd yma, acw olygfa well. Gwelaf brawf arall, hollol wahanol, ond nid croes i ddim a allaf weled yn y greadigaeth, fy mod i fyw byth; nid ynnof fy hunan; nid yn y nattur ddynol; nid yn y greadigaeth yn un man; mae hon yr un o hyd er dechreuad y byd yn cyhoeddi dyn yn farwol; ond yn Ngair Duw, yn y Bibl a'r Bibl yn unig; dyma fy unig sylfaen i obeithio; dyma enaid fy nghrefydd; dyma fywyd fy addoliad; dyma nerth fy rhinwedd; dyma sylfâen "y tŷ nid o waith llaw;" "a sylfaen arall nis gall neb ei osod heblaw yr hon a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist." Ïe, Iesu Grist; nid ei berson ond ei athrawiaeth a'i adgyfodiad, fel y cawn hwynt yn y Testament Newydd, ydyw unig sylfaen crefydd. A phe darfyddai'r llyfyr hwn o'r byd (na atto Duw i'r fath aflwydd gymmeryd lle) darfyddai crefydd heb fod yn hir wedi'n. Gallai traddodiad efallai gadw ychydig o olion crefydd am beth amser yn y byd; ond i golli yr elai'r cyfan maes o law.

Goddefwch i mi ychwanegu, wrth derfynu, nad wyf yn canfod pa angen mawr sydd am Fibl, na datguddiad o un math, os oedd crefydd yn y byd o'i flaen, ac y byddai yn y byd ar ei ol pe darfyddai ar unwaith. Nis gallaf gredu i Dduw wneuthur cynnifer o wyrthiau yn ofer, cyfodi cynnifer o brophwydi heb un diben, a danfon Iesu i'r byd heb ddim o'i angen. Pe buasai crefydd yn blanedig yn anian dyn, felly yn eglur y byddai. Y mae'n ddigon gwir, pe darfyddai pob llyfyr o'r byd heddyw mai un fyddai Duw; mai cariad fyddai, mai Tad fyddai; fod rhinwedd yn dda; fod byd ar ol hwn; ond y pwngc yw, pwy fyddai yn canfod y gwirioneddau pwysig hyn wedi'n? Etto os nad sylfaen crefydd yw'r Bibl, pa ddiben ymdrechu gwella ei wallau; nid ar gywirdeb nac anghywirdeb yr ysgrifeniadau y mae crefydd yn ymddibynu, gan ei bod yn blanedig yn anian dyn; yna ni waeth faint o wallau f'o ynddo yn y byd. Ond nid felly fy marn i. I'r Bibl yr wyf yn ddyledus am addysg mewn moesoldeb; efe sydd yn fy nysgu i ganfod fy Nhad yn fy Nuw, ac felly tynu fy nghalon i'w garu; efe sydd yn fy nysgu i weled fy mrawd mewn dyn, ac i'w garu er yn elyn; efe sydd yn dangos i mi un gwrthddrych addoliad, ond un teilwng; efe sydd yn dangos i mi fod y bedd wedi agor; mewn gair, efe

yn unig yw sylfaen fy nghrefydd i. Oddiallan, nid wyf yn canfod ond dynion yn dwyn nattur i bleidio aml-dduwiaeth a phob trythyllwch ac amryfusedd, a galw hyny yn grefydd hefyd. Edrychwch i blith y Groegiaid dysgedig a'r werin annysgedig am grefydd, a chewch weled mai ofer fydd eich gwaith; edrychwch i blith y Rhufeiniaid, meistriaid y byd am grefydd, a chewch eich siomi; ond edrychwch i'r Bibl, ac nid ofer mwyach eich gwaith. Dyma'r sylfaen ynte, nid dynoliaeth. Ymhob man arall nid oes ond doethion wedi myned yn ffyliaid, "heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd."

Ydwyf, yr eiddoch yn garedig,

AMICUS.

Y PROPHWYDOLIAETHAU IUDDEWIG, YN PROFI GWIRIONEDD DADGUDDIAD.

MR. YMOFYNYDD,—Gan fod llawer o duchan gan rai oherwydd meithder rhai o'r gohebiaethau a ddanfonir attoch, a chan eich bod chwithau mewn rhau wedi rhoddi i fynu i'w dymuniadau *plentynaidd*, y mae'n rhaid i mi orphen fy narlith olaf ar wirionedd Cristnogrwydd trwy roddi dernyn yma, a dernyn draw o honi; yr hyn sydd drueni wrth drin pwngc mor bwysig.

OWEN EVANS.

YR wyf yn cymmeryd yn ganiattaol heb gynnyg ei brofi, o herwydd y bwbach I'W BARHAU, *fod yr ysgrythyrau Iuddewig gydag ychydig neu ddim gwahaniaeth yr un peth ag oeddent ar ddiwedd y caethgludiad i Babylon*, bum cant o flynyddau cyn geni Crist.

Yr wyf yn cymmeryd yn ganiattaol hefyd, yr hyn debygaf na wedir, a'r hyn yn wir ni chafodd ei ammau gan un dyn gwybodus, sef, *fod prif ffeithiau yr hanes Iuddewig yn wir.* Fod yr Iuddewon wedi deilliaw o Abraham, Isaac, a Jacob; eu bod unwaith yn gaethion yn yr Aifft; iddynt gael eu gwaredu oddiyno gan Moses; iddynt sefydlu eu hunain yn ngwlad Canaan trwy fuddugoliaeth; iddynt ar y dechreu gael eu llywodraethu gan farnwyr; wedi hynny gan frenhinoedd; mai Saul, o lwyth Benjamin oedd eu brenhin cyntaf, &c., &c.

Yn gyntaf y mae'n ymddangos i'r bobl hynod hyn gael eu hanrhydeddu â datguddiad Dwyfol, ac fod eu prophwydi wedi eu hawdurdodi gan Dduw. Nid oes modd arall i gyfrif am eu syniadau goruchel *am garacter a phriodoliaethau'r Goruchaf*, a'u cred ddiysgog yn UNDOD DUW, a hyny ynghanol coel-grefydd ar eulunaddoliaeth cenhedloedd mwy gwaraidd a dysgedig nâ hwynt o lawer, fel y mae crugiau duwiau yr Aifft, Groeg, a Rhufain, ïe a phawb, pawb ond hwynt eu hunain, yr tystio. Os gofynwch am brawf, nid ei eisiau sydd; ond eisiau cennad y babanod sydd yn cael eu brawychu gan I'W BARHAU.

O ba le, ynte, y cafodd y dynion hyn y wybodaeth hon? Pa fod y medrent ddysgeidiaeth a hwythau heb ddysgu? Pa fodd y daeth yr Iuddewon dirmygedig ac annysgedig i ffurfio a choleddu syniadau am Dduw, ei briodoliaethau a'i lywodraeth, gymmaint yn rhagorach nag eiddo eu cymydogion dysgedig? Ai trwy ymresymu y daethant i'r penderfyniadau hyn? Nid ydynt yn *pretendo* y fâth beth. Nid oes fawr ymresymu yn y Bibl ar y priodoliaethau dwyfol, a llai fyth ar Uudod Duw. Llais awdurdodiaeth, gorchymyn yw'r cwbl. "Myfi wyf Dduw, ac nid oes neb arall ond myfi, &c."

Y mae'r hanes yn ymddangos yn wir etto, oherwydd ei *degwch.* Edrychwch ar hanesion Groeg a Rhufain, sydd wedi eu cyfansoddi gan haneswyr mwyaf enwog y bobl hynod hyny. Beth ydynt, yn gyffredin, ond canmoliaeth ŵyrgam eu gwahanol wledydd, yn ddigon pell oddiwrth y gwir? Y mae pechodau gwladol yn cael eu cuddio ynddynt; rhinweddau gwladol yn cael eu mwyhau; y mae eu holl gynghorion a'u cynghorwyr yn ddoeth; eu holl ryfeloedd yn gyfiawn; eu holl bennaethiaid yn haelionus a dewr, yn addas i fod ynmhlith y duwiau. Trowch o'r tu arall at y cof-

lyfrau Iuddewig; a pha ddarlun sydd yma? Y mae yma y genedl fwyaf ei breintiau, ond y fwyaf hurt a gwargaled yn y byd, y fwyaf anniolchgar yn hanes dyn. Y mae ei phenaethiaid wedi eu llychwino â'r pechodau mwyaf ffiaidd; mor ffiaidd yn wir, nes yw anffyddiaeth wedi cymmeryd mantais hollol annheg ar hyny i ddiraddio crefydd. Ond clywch, anffyddwyr! Paham y rhoddwch goel i'r drwg, tra na chredwch air o'r da, er fod y ddau yn yr un hanes? Credwch, os mynwch, ar dystiolaeth y Bibl; mai cenedl hurt, war-galed, oedd yr Iuddewon; ond credwch hefyd, ar yr un dystiolaeth fod yr Iuddewon wedi derbyn cyfraniadau o ddadguddiad Dwyfol. Credwch, ar sail yr ysgrythyrau Iuddewig, fod Jacob yn rhagrithiwr, Dafydd yn odinebwr a mwrddwr, Solomon yn eulunaddolwr a gloddestwr; ond, addefwch hefyd, ar sail yr un hanes diduedd fod Moses yn ddeddf-roddwr wedi ei awdurdodi gan Dduw ac fod Isaiah yn brophwyd ysbrydoledig. Nid yw addef pob peth sydd yn ddrwg, a gwrthod pob peth sydd dda, ddim yn dêg: nid oes dim uniondeb na chyfiawnder yn hyn, a bod yn sicr.

Ymddengys fod yr Iuddewon wedi cael eu hanrhydeddu â datguddiad dwyfol ynmhellach oddiwrth *brophwydoliaethau* yr *ysgrythyrau Iuddewig*, llawer o honynt sydd eisioes wedi eu cyflawni, a rhai eraill yn cael eu cyflawni y dyddiau hyn.

Ni chaniattâ amser i mi fanylu ar brophwydoliaethau yr Hen Destament. Bydd yn ddigon i sylwi yn fyr ar ychydig o'r rhai mwyaf pwysig, y rhai a berthynant iddynt hwy eu hunain fel cenhedl, a'r cyfryw a ellir eu cymhwyso i'r cenedloedd amgylchynol.

O'r prophwydoliaethau a berthynant i'r *Iuddewon eu-hunain*, y rhai mwyaf eu pwys yw y rhai sydd yn rhagddywedyd eu caethgludiad i Babylon, a'u dychweliad ar ol hyny i'w gwlad eu hunain, gan Isaiah, Hosea, a Jeremiah: y mae Jeremiah yn cyfyngu parhâd y gaethglud yn bendant i driugain mlynedd. Ond y brophwydoliaeth fwyaf bwysig mewn perthynas i'r genedl Iuddewig yw'r hon a geir yn y pennodau olaf o Deuteronomium; lle y mae gwrthgiliad yr Iuddewon, y gwaeau oedd i'w gorddiwes, dinystr eu gwlad, eu gwasgariad trwy yr holl fyd, yn cael eu rhagfynegi gan Moses; yr hyn sydd yn cael ei wirio gan sefyllfa wirioneddol y bobl hyny y dyddiau hyn, ac er ys canoedd o flynyddau bellach.

Mewn perthynas i'r prophwydoliaethau a berthynant i'r cenhedloedd amgylchynol, yn y lle cyntaf, rhagddywedir am Ishmael, oddiwrth yr hwn y mae'r Arabiaid yn hòni eu tarddiad, "Efe a fydd yn ddyn gwyllt, â'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau, ac efe a drig gerbron ei holl frodyr." Y mae'r brophwydoliaeth hon yn cael ei chyflawni mewn modd hynod yn nghyflwr a character ei hiliogaeth hyd heddyw. Yspeilwyr, lladron cyhoeddus, yw'r Arabiaid hyd y dydd hwn; gelynion pawb o ddynolryw; ac felly â'u llaw yn erbyn pawb, a phawb yn eu herbyn hwythau. Y maent hefyd wedi bod erioed, ac yn aros hyd etto, yn fobl annibynol ac anorchfygedig. Cynnygiwyd eu darostwng lawer gwaith, ond yn ofer hyd yn hyn.

Am Tyrus, rhagddywedir gan Ezeciel fel hyn, "Gwnaf di yn gopa craig: taenfa rhwydau fyddi, ni'th adeiledir mwy; canys myfi yr Arglwydd a'i lleferais medd yr Arglwydd Dduw." Dyma yw sefyllfa wirioneddol hon, a fu unwaith yn dref gyfoethog a llwyddiannus, marchnadfa fawr yr holl fyd. Dywedir gan drafaelwyr nad oes dim i'w weled yno ond ychydig o rwydau pysgotwyr, yn daenedig ar y graig: felly wele gyflawniad o'r brophwydoliaeth i'r llythren.

Am yr Aifft, rhagddywed yr un prophwyd: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Difethaf hefyd y delwau, a gwnaf i'r eulunod ddarfod; ac ni bydd tywysog mwyach o dir yr Aifft." Pan y llefarwyd y brophwydoliaeth hon, yr oedd yr Aifft ynghyflawnder ei gallu, yn genedl gref a llwyddiannus, dan lywodr-

aeth ei thywysogion ei hun. Mae darllen hanes yr Aifft yn ddigon i ddangos fod y brophwydoliaeth hon etto wedi ac yn cael ei chyflawni er ys dwy fil o flynyddau yn agos.

Ond y prophwydoliaethau mwyaf hynod a brawychus o'r fath yma ydyw y rhai ydynt yn perthyn i oresgyniad a dinystr hollol Babylon. Y mae amgylchiadau dinystr y ddinas hon yn cael eu rhagfynegi gyda chywirdeb a manyldra rhyfeddol gan Isaiah a Jeremiah. Rhagddywedir yn gyffredinol, y byddai i Babylon gael ei chospi am ei balchder a'i thrahausder, ac yn neilldiol am ei chreulonder i'r caethgludion Iuddewig. Y mae hyd yn oed y cenhedloedd oeddent i'w goresgyn yn cael eu henwi, ac y mae anian a chymeriad rhyfelgar y Mediaid a'r Persiaid yn cael ei ddarlunio, ar y pryd yr oeddent yn fobl ddistadl ac anwaraidd, a phan oedd Babylon yn cyfodi i nen ei gogoniant. Y mae hyd yn oed y tywysog oedd i gyflawni hyn yn cael ei alw wrth ei enw; y pryd a'r modd, sef ar amser gwledd, a thrwy *stratagem* neu ddichell. Cymharer hanesion Xenophon a Herodotus â'r prophwydoliaethau hyn, a gwneled amheuaeth ei gwaethaf.

Ond y mae 'yma brophwydoliaethau tuhwnt i amheuaeth, ac felly awn yn awr i chwilio beth yw'r dystiolaeth a ddygant i'r Messia. Y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn appelio'n barhaus at yr ysgrythrau Iuddewig fel prawf o'i ddwyfol genhadwri. "Chwiliwch yr ysgrythyrau, hwynthwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi." "Pe credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minnau; oblegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe."

Y pwngc ynte yw, pa rannau a'r ysgrythyrau Iuddewig oedd yn gosod sail i'r haeriadau hyn, yn gystadl ag i'r disgwyliad cyffredin am dano ag oedd ynmhlith yr Iuddewon ïe a chenhedloedd hefyd, ar yr amser yr ymddangosodd, fel y tystia Josephus, Tacitus, a Suetonius?

Yn awr yn gyntaf, y mae'n briodol i sylwi ynmlaen llaw, na all y prophwydoliaethau ddim bod mor aml ag y mae llawer yn tybied eu bod; oblegid darfu i'n Harglwydd, mewn siwrnai fer, o awr neu ddwy, wrth fyned i Emmäus, ddechreu ar Moses a'r *holl* brophwydi, "ac a esboniodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun."

Y flaenaf a grybwyllaf ydyw'r brophwydoliaeth hynod hono, a draddodwyd gan Moses yn Deut. 18, 17—19, ac a gymhwysir i Grist gan yr Apostol Petr, a Stephan y cyntaf o ferthyron Iesu. "A dywedodd yr Arglwydd wrthyf . . . Codaf brophwyd iddynt o fysg eu brodyr fel tithau, &c."

Y mae'r geiriau hyn yn cael eu cyfeirio gan rai at rês o brophwydi olynol; ond ni fu neb erioed yn brophwyd fel Moses, yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion, ond Iesu.

Y brophwydoliaeth nesaf a geir yn y 42 a 43 o Isaiah, lle y mae desgrifiad llythyrenol yn cael ei roddi o'r Messia, mor llythrenol nes oedd yr Iuddewon yn gorfod chwilio am esboniad ofergoelus iddi; onidê ni chawsai byth o'i chyflawni.

Gellir gofyn etto, pa brophwydoliaeth sydd yn hysbysu'r *amser* pan yr oedd y Messia i ymddangos, a pheth allasai gyfodi y fath ddisgwyliad cyffredin am dano yn amser gweinidogaeth gyhoeddus Crist? Y mae'n rhaid addef nas gallaf ganfod un sail gyfiawn i'r fath ddisgwyliad, ond ym mhrophwydoliaeth Daniel, ynghylch y 70 wythnosau, yr hon yn wir y mae ein Harglwydd ei hun yn difynu yn bendant fel yn 'rhagfynegi gwarchae Jerusalem gan y Rhufeiniaid. Yn wir y mae hon yn brophwydoliaeth o anhawsdra mawr, ond efallai ei bod yn fwy ddealladwy i'r Iuddewon yr oes hòno, nag ydyw yn awr i ni. Buasai yn dda gennyf osod ger eich bron yr hyn sydd yn ymddangos i mi y dehongliad mwyaf cywir oddiwrth gyficithad Dr. Blayney, ond rhaid distewi bellach; gwyddoch fel y mae, yn gystal a minnau.

Un cais wrth ddiweddu; a gaf fi ymdrechu ateb y gwrthddadleuon yn fy ysgrifau nesaf?

O. E.

HAERIADAU D. L. EVANS, (Tud. 32,) YNGHYLCH PREGETHWYR UNDODAIDD CYMRU.

Mr. Gol,—Drwg iawn gennyf weled yn yr *Ymofynydd* diweddaf, ymosodiad gwarthus ac anwireddus D. L. Evans, ar *garacter*, defnyddioldeb a galluoedd gweinidogaethawl Pregethwyr Undodaidd Cymru. Nis gall cymmeradwyaeth nac anghymmeradwyaeth un ag y mae ei holl ysgrfeniadau yn profi ei fod mor fyrbwyll ac anfeddylgar, fod o ddim pwys yngolwg y cyffredinolrwydd; ond gan y bydd fe allai i'r Ymofynydd syrthio i ddwylaw rhai nad ydynt alluog i iawn farnu faint o wirionedd all fod yn yr ymosodiad crybwylledig, yr ydwyf yn dymuno lle i sylw neu ddau yn eich rhifyn nesaf.

Ystyriaf mai nid gwaith priodol iawn i ddyn ieuangc ac ammrhofiadol yw cymmeryd arno orchwyl ag sydd yn gofyn cymmaint o ystyriaeth a phwyll, â barnu a "nodi allan ddiffygiadau holl bregethwyr Cymru," yn enwedig pan nad ydyw yn hysbys hyd yn nod o *enwau* y rhan amlaf o honynt! Fy amcan presenol yw nodi rhai o'i haeriadau disail mewn perthynas i weinidogion Undodaidd Cymru. Priodola efe i *bawb*, arferiad ag y mae yn yr un *sentence* yn gyfaddef nad yw yn perthyn ond *i rai* o'r gweinidogion. "Sicr wyf" medd ef "y caent lawer mwy o wrandawiad pe ymadawent a'r dull ammhoblogaidd sydd gan *rai* o honynt o ddarllen eu pregethau."—Pa fodd y gall Gweinidogion ymdrechu ymadael a *dull* ag sydd yn unig gan *rai* o honynt; sydd tu hwnt i'm amgyffred! Mae llawer yng Nghymru heb gael ysgol erioed yn eithaf galluog i brisio'r fath *Logic! Nid gwir* chwaith yw hyn; canys nid oes neb o weinidogion Undodaidd Cymru yn *arferol* o ddarllen eu pregethau, ond ambell ŵr ieuangc pan fyddo newydd adael y Coleg. Yna yr â rhagddo gan ychwanegu "a phe delient lai mewn *Metaphysics* a mwy mewn Christnogaeth."—Mae'r ffiloreg uchod yn profi yn gryfach na dim sylwadau a allaf fi wneuthur yngolwg pob un ag sydd yn gwybod dim am *Metaphysics* a *Christnogaeth*, helaethrwydd gwybodaeth D. L. Evans ar y pwngc! Yr ydwyf yn ystyried mai gwreiddyn holl gyfeiliornadau'r byd yw anwybodaeth mewn perthynas i natur a phriodoliaethau'r meddwl neu'r deall, a'r modd mae'r Creawdwr doeth a da wedi arfaethu i i effeithio arno. Nid ydyw D. L. Evans yn "ammeu na fyddai pregeth ar *Angenrheidrwydd* neu ar *natur a diben cosp* yn ddyddorawl i'r *dysgedig* ond y maent yn gofyn galluoedd mwy fe allai na fedd un pregethwr yng Nghymru i wneud chwaliad pynciau mor oranianawl yn ddealladwy ac yn ddyddorawl i'r bobl gyffredin." Ai cymmwys cyhuddo holl weinidogion Undodaidd Cymru o ddiffyg gallu, o herwydd ei fod ef ei hun, *hyd yma*, yr ydwyf yn eithaf sicr, wedi methu eu deall? Nid doeth bob amser yw mesur eraill wrth lathen ein hunain! Yn ôl fy meddwl i nid oes pyngciau yn fwy eu pwys yn cael eu dysgu yn y Datguddiad Dwyfol nâ'r rhai dan sylw. Maent yn dal cysylltiad uniongyrchol â bodoliaeth a llywodraeth Duw a'i holl ymweliadau tuag at yr hîl ddynol, "Nis gall pren da ddwyn ffrwyth drwg, &c." yw egwyddor sylfaenol *Angenrheidrwydd*, a Dammeg y mab afradlon yw'r esboniad mwyaf perffaith yn y greuadigaeth o natur o diben cosp.

Nid oes egwyddorion mor hawdd i'w hamgyffred a'r rhai hyn, ond cael y meddwl yn rhydd oddiwrth ragfarn a *hunan-dyb*. Nid yw'n bossibl i *ddysgu* dynion ag sydd yn meddwl eu bod yn gwybod y cyfan! Ond am y bobl gyffredin, yr ydwyf yn adnabod llawer o honynt a allant oleuo D. L. Evans ar y pyngciau uchod.

A ydyw yn weddus ger bron y byd i D. L. Evans farnu holl weinidogion Un-

dodaidd Cymru fel yn analluog i wneuthur un effaith ar yr oes, o herwydd ei fod ef wedi methu yng Nghymrn a Lloegr? "Os gallant gadw yn fyw yr athrawiaeth o briodol Undod Duw &c." *Os gallant gadw yn fyw!* Pwy meddaf sydd wedi rhoddi bywyd i'r athrawiaeth hon yng Nghymru? Ai nid gweinidogion Undodaidd Cymru? Mae un o'n gweinidogion (yr henaf) presenol yn cofio adeiladu yr addoldy cyntaf i'r Undodiaid yng Nghymru; mae cynnydd a llwyddiant Undodiaeth yn perthyn i'r oes hon ac i lafur y gweinidogion sydd yn awr yn ein plith. Gwarthus yw fod D. L. Evans wedi bod cyhyd ymhlith Undodiaid Cymru, heb wybod 'chwaneg am danynt ac am eu hathrawiaeth!! Haera ymhellach "eu bod ymhell ar ôl yspryd yr oes."—A wyr D. L. Evans ddim fod pregethwyr Undodaidd Cymru i gyd ond un neu ddau gwedi cael *cystal* (a llawer o honynt *well*) manteision gwybodaeth nag ef ei hun? A gadawaf i ddarllenwyr yr Ymofynydd farnu pa un ai D. L. Evans neu eraill sydd wedi defnyddio eu gwybodaeth orau. Mae llawer o ymffrost mewn perthynas i "oleuni" a "chynnydd" yr oes &c." Ond yn ddiamheuol y *rhai hynny* sydd uchaf eu llais ar y pwnc, ag sydd fwyaf ymddifad o nodau goleuni a chynnydd eu *hunain!* Llesg yw ymdaniad gwir oleuni; ac yn raddol iawn y mae'r meddwl ehangaf yn cyrhaeddyd gwir wybodaeth.

Gan ddymuno pob llwyddiant i'r Ymofynydd tra y parhao i gynnwys rhyw beth o werth i'w ddarllen.

Ydwyf, yr eiddoch, &c.,

Chwef. 10ed. UNDODWR.

Ni adawn y pwngc mewn dadl rhwng Mr. D. L. E. a'i wrthwynebwyr. Ymddengys i ni fod "Undodwr" ei hunan wedi bod yn hytrach yn "fyrbwyll," yn ei waith yn cymeryd yn ganiatäol, fod D. L. E. "wedi methu yng Nghymru a Lloegr." Y mae y cyfeiriad yn rhy bersonol i'w drafod yma. Ond gan ein bod wedi rhoddi caniatâd i'w gyhoeddi, cyfiawnder tuag at gymmydog a chyfaill diwyd a llafurus a ofyn ar ein llaw, i gyhoeddi ar yr un pryd, ein bod yn ystyried nad oes un sail i ddywedyd felly am Mr. E. yn neillduol; y gwyddom am dystiolaethau parchus a gafodd ef oddiwrth Undodwyr cyfrifol yn swydd Rhyd-ychen; ac mai yr unig achos o'i ymadawiad a *Bloxham* oedd, fod y Gynulleidfa yno yn rhy wan i'w gynnal. Ymbiliwn ar ein gohebwyr i ochelyd bod yn bersonol yn eu sylwadau.

GOL.

BETH DDYLAI'R YSGRYTHYRAU FOD PE BAI ATHRAWIAETH Y DRINDOD YN WIR.

SYR,—Mynych y clywir pregethwyr Trindodaidd yn ymdrechu trwy haeriadau gysoni athrawiaeth y Drindod â'r ysgrythyrau; ond credaf eu bob wrth 'hyny yn cymeryd gorchwyl mewn llaw tra anhawdd ei gyflawni. Er cymaint yw zêl ac ymdrechiadau rhai dynion i ddarbwyllo'r anwybodus i gredu fod athraiaeth y Drindod yn gyson a'r ysgrythyrau, ac er cymaint yw eu medrusrwydd ymadroddawl, anmhosiblrwydd hollol yw troi cyfeiliornad yn wirionedd, na gwirionedd yn gyfeiliornad. I ddangos hyn yw dyben y sylwadau canlynol; ac os gwelwch hwynt yn addas i'r Ymofynydd, y mae i chwi roesaw i wneyd defnydd o honynt.

Ydwyf, yr eiddoch, &c.,

Penybont. D. LEWIS.

---

1. Cyn gall yr ysgrythyrau fod yn Drindodaidd hwy ddylent ddefnyddio y fath eiriau a "Thrindod," "Thri pherson gogyfuwch yn yr hanfod ddwyfol," "Duw tri-unol," a geiriau a gynwysant fod y Drindod yn ddirgelwch nas gellir

ei deall; ond ni sonia'r ysgrythyrau ddim am y fath eiriau.

2. I fod yn Drindodaidd, hwy ddylent ddefnyddio y fath eiriau a "Duw'r Mab," "Duw'r Ysbryd Glan," yngystal a "Duw Tad;" ond y maent yn ddistaw yn eu cylch.

3. Cyn y gallant fod yn Drindodaidd, hwy ddylent alw Crist a'r Ysbryd Glan yn Dduw mor aml ag y galwant y Tad yn Dduw. Galwant y Tad yn Dduw mwy na mil o weithiau; ond ni alwant Crist yn Dduw mwy na thairgwaith ar-ddeg, yn ol tystiolaeth Trindodwyr eu hunain; galwant y Duwiau Paganaidd yn Duwiau unwaith-ar-ddeg; Gwroniaid pum gwaith; a Chenadon ddwywaith; a'r tairgwaith-ar-ddeg a dybier fod y gair *Duw* yn cael ei gyfleu at Grist, ant mor lleied a dau ar ol ychydig ystyriaeth a chwiliad; ac yn y ddau hyny nid ydyw yn cael ei gyfleu atto yn yr ystyr uchelaf, ond yn yr un ystyr ag y cyfleuir ef at Solomon.

4. Cyn y gallant fod yn Drindodaidd, hwy ddylent âlw Crist yn "Dduw-Dyn," neu "Dyn-Duw;" ond y maent i'r gwrthwyneb yn ei alw ef yn *Ddyn.*

5. I fod yn Drindodaidd, hwy ddylent fynegi yn amlwg a phendant fod gan Grist ddwy natur wedi eu uno mewn un person; i fod un natur yn meddu ar holl briodoleddau Duw, a'r llall yn meddu ar holl briodoleddau Dyn; ei fod yn gwneuthur rhai pethau fel *dyn*, a rhai pethau fel *Duw.* Ond ymha ysgrythyr y ceir y fath ymadroddion, neu rhyw beth yn gyfystyr iddynt? Y gwirionedd yw, nid ydynt yn dywedyd gair fod gan Grist ddwy natur; a'i fod yn dywedyd a gwneuthur rhai pethau fel Dyn, a rhai pethau fel Duw.

6. I fod yn Drindodaidd, hwy ddylent ddysgu mai nid Duw'r Tad a ymgnawdolodd ac a *arosodd* yng Ngrhist; hwy ddylent ddysgu i Dduw'r Tad aros yn y Nefoedd; ac mai Duw'r Mab a ymgnawdolodd ac a drigodd yn y dyn Crist Iesu; ond dysga'r ysgrythyrau i'r gwrthwyneb, mai y Tad yn unig oedd yn *aros* yn y dyn Crist Iesu; mai y Tad a'i galluogodd i draethu egwyddorion graslawn yr Efengyl, ac i wnenthur y gweithredoedd ryfeddol a wnaeth. *Os* yw'r ysgrythyr yn dysgu rhyw beth ynghylch Duwdod Crist, yr hyn a dysgodd *Sabelius* ydyw, sef, mai Crist yw'r unig Dduw, ac nid tri o bersonau yn y Drindod. Nid yw'r ysgrythyr yn dysgu i "Dduw'r Mab" *aros* neu *drigo* yn y dyn Crist Iesu; yn wir nid ydyw'r ysgrythyr yn son gair am y fath *fod;* yr hyn y mae yr ysgrythyr yn ei ddysgu yn amlwg iawn yw, mai y Tad a *drigodd* neu *arosodd* yn Iesu Grist; ac nid rhyw ail neu drydydd person yn y Drindod. Mai'r ysgrythyrau yn dysgu mai un Duw sydd, ac i'r Duw hwnw *aros* Ynghrist; ac os yw hyn yn ddigon i brofi Trindod, nid Trindod o bersonau dwyfol a wnaiff, ond yn unig mai un Duw sydd, ac mai Iesu yw'r Duw hwnw.

7. Cyn y gallant fod yn Drindodaidd hwy ddylent ddysgu fod Crist yn meddu ar ddigon o ddoethineb a gallu, i ddysgu ei egwyddorion i'r byd, a gwneuthur ei weithredoedd, a hyn yn unig oherwydd fod "Duw'r Mab" yn *trigo* ynddo. Ond y ffaith yw, fod yr ysgrythyrau yn dywedyd fod Crist yn analluog o hono ei hun i wneuthur dim. Dysgant fod ei holl ddoethineb a'i allu wedi ei dderbyn ganddo yn unig oddiwrth ei Dad. Maent yn dangos Crist fel pe buasai yn rhaid iddo gael ei alluogi gan ei Dad i wneuthur pob peth perthynol i'w swydd.

8. I fod yn Drindodaidd hwy ddylent orchymyn pawb i weddio ar y Drindod mor fynych ag y gorchymynant weddio a'r y Tad, yr unig wir Dduw. Dylent orchymyn weddio ar y Mab a'r Ysbryd Glan mor aml ag y maent ar y Tad. Hefyd dylent gynwys engrheifftiau fod yr Apostolion wedi gweddio ar y Drindod, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Ond ym mha le yn yr ysgrythyrau y darlleuir fod Crist wedi gorchymyn ei ganlynwyr i weddio ar y Drindod? Ac ym mha le y cyfarfyddir ag engrhaifft i Grist weddio ar y Drindod? Nis gallaf ei

gweled yn yr ysgrythyrau. Y mae Crist yn mhob man wedi gorchymyn pawb pan weddiont i ddywedyd "Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd." Ni weddiodd Crist ar un bod arall ond ar y Tad, "ei Dduw ef, a'n Duw ninau." Mewn cysylltiad â gweddi y dywedodd unwaith. "A'r dydd hwnnw ni ofynwch ddim i mi, yn wir yn wir meddaf i chwi, pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw i, efe a'i rhydd i chwi." Mae y dyfyniad hyn yn dangos fod Crist wedi gwrthod gweddi. Mor belled ag y mae gorchymyn ac esampl yn myned, gellir casglu na orchymynodd i neb weddio ar un bod arall ond y Tad; ac hefyd, ni weddiodd efe ei hun ar neb ond y Tad.

9. Cyn y gallant fod yn Drindodaidd ni ddylent alw Crist yn *Ddyn* heb defnyddio geiriau eglurhäol mewn cysylltiad â hyny. Ystyria Trindodwyr yn wradwydd galw Crist yn *Ddyn* a hyny yn unig; ni feiddiant ei alw felly heb gysylltio geiriau eglurhäol, megis, "Duw-Ddyn," a Dyn-Duw." Nî chredant ei fod yn Ddyn ond gyda golwg ar un rhan o'i natur yn unig. Ai hyn yw iaith yr ysgrythyrau? Hwy gânt atteb. "Un Duw sydd, ac un cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y *Dyn* Crist Iesu."

10. I fod yn Drindodaidd, dylai'r ysgrythyrau pan y dysgant fod Crist yn *îs* nâ'r Tad, ddangos nad ydyw yn *îs* nag ef ond yn unig fel ag oedd yn Ddyn; ond nid ydynt. Mynegant ei is-afiaeth heb un eglurhad beth bynnag. Dysgant ei fod yn hollol ymddibynol ar y Tad am bob peth. Ni ddysgant fod Crist gogyfuwch â'r Tad mewn hanfod fel y dysga Trindodiaeth. Mi wn y dygir rhai adnodau ymlaen i geisio gwneuthur hyny. Barnwyf nad ydynt yn dysgu cydraddoldeb Crist â'r Tad, ond yn unig fel ag y mae cenadwr yn gydradd â'i Frenin yn yr amser ag y mae yn llanw ei swydd. Dangosa'r ysgrythyrau yn dra amlwg fod pob gallu ag awdurdod wedi ei *dderbyn* ganddo oddiwrth ei Dad.

11. I fod yn Drindodaidd hwy ddylent pan yn son am anwybodaeth Crist egluro mai un natur iddo yn unig oedd yn anwybodus, sef y natur ddynol; fod ei natur ddwyfol yn gwybod pob peth fel y Tad ei hun. Ond y maent yn mynegi am ei anwybodaeth heb un eglurhâd. Yn wir mae yn ofynol gwneuthur y Beibl o newydd cyn y gall gydseinio âg ysgrifeniadau Trindodwyr.

Y BIBL CYMRAEG.

Syr,—Wedi ddarllen yn eich Rhifyn olaf, hysbysiadau a sylwadau eich Gohebydd Mr. D. L. Evans, ynghylch y Bibl Cymraeg, a'u cydmaru â'r ychydig ag oeddwn fy hunan yn digwydd gwybod ar y pwngc, mi ddaethum i'r penderfyniad ei fod nid yn unig yn ddichonadwy, ond hefyd yn dra dymunol i gael ychwaneg o wybodaeth ynghylch y gwahanol cyfieithadau a wnaed gynt o'r Bibl i'r Cymraeg. Nid wyf fi yn bresenol yn alluog i atteb neb o'r cwestiynau y mae Mr. E. yn ei ofyn. Ond mi anturiaf gynnyg y canlynol at y stôr o ffeithiau a geir yn ei lythyr ef.

Dan y gair "Celydd" yng Ngeirlyfr Dr. W. O. Pughe dywedir, "Celydd Ieuan, Mangre yn Morganwg, etifeddiaeth teulu ag sydd yn meddu ar lawysgrif o'r Bibl Cymraeg, wedi ei gyfieithu gan un o'u hynafiaid, oddeutu can mlynedd oflaen yr un argraffedig?"

Yn awr, ym mha le mae "Celydd Ieuan? Beth yw enw y teulu ag sydd yn perchenogi y lle? A oes neb o ddarllenwyr yr Ymofynydd wedi clywed am y law-ysgrif hon? Byddaf yn ddiolchgar am wybodaeth trwy gyfrwng eich cyhoeddiad.

Ydwyf,

Quis?

BUCHDRAETH SION CENT.

GAN J. RHYS, MERTHYR.

"Pwy, wrth fuchedd rinweddol
O rym dysg, a rwym y diawl?"
MEREDYDD AB RHOSSER.

RHAGLITH.

TRA anhawdd ydyw cael un Sefydliad, gan nad pa mor glodwiw y byddo ei amcan, ar nad ydyw yn ddarostyngedig i ryw bethau beius fel i ymlusgo neu ymwthio i mewn fel yn anocheladwy er ei niweidio, a chroesi y bwriad mewn golwg.

Diamheuol yw na ffurfiwyd yn mhlith cenedl y Cymry ragorach Sefydliadau nâ'r Eisteddfodau a'r Cymdeithasau Cymröaidd, am fod yr ymdrechion cystadleuol er ennill gwobrwyon, wedi cymhorth gwybodaeth i roddi brasach camrau, ac wedi bod yn foddion i gael allan berlau hanesyddawl megys o waelodion afonydd dofn y cyn-oesoedd, a pheri i lawer, er wedi marw, i lefaru etto; ond rhaid addef fod amser lawer wedi ei dreulio, arian lawer wedi eu gwario megys yn ofer, a gradd helaeth o warth yr oes bresennol wedi ei drysori i'r dyfodol oesoedd, trwy ddewis Testunau annghymhwys ac annghytunol â natur y Sefydliad, ac heb fod o un llcs i neb fu, sydd, nac a ddaw, oddieithr y Wobr fechan i'r Ysgrifenydd, a hi yn unig! Ond yn newisiad y Testun clodwiw hwn (er efallai i rai yr ymddengys yn ddiwerth) amcenir at les cyffredinol; sef, symud y gwarthrudd oddiar enw un ac y mae y nôd duaf wedi ei roddi ar ei gymmeriad, trwy ei osod allan fel dewin, ac un yn dàl cyfrinach ac wedi llwyr ymwerthu i'r diafol. Rhoddir lle hefyd i'r Ysgrifenydd i ymdrin â'r dyb gau am y fath bethau er eu hymlid ymaith, a dangos tywyllwch y cyn-oesoedd, yn nghyd â'r perygl mawr y safai Dysgedigion a Diwygwyr ynddo yn oesoedd y gaddug a döai y bobloedd, a'r llen a deflid dros genedl y Cymry pan y gordöai tywyllwch Pabyddol ac anwybodaeth holl gyrau ein tir; estynir hefyd i'r dyfodawl oesoedd Gofiant un ac y mae ei enw yn teilyngu ei ysgrifenu ar dudalenau olaf llyfr amser, a'i ysgrifeniadau i'w cadw yn ddiogel hyd doddiant yr elfenau. Llawer yn ychwaneg a allesid ei ddweyd mewn ffordd o ganmoliaeth i ddetholiad y Testun hwn a'i gyffelyb, a llawer a allesid ddynodi o Destunau aflesiol, gwael, a gwarthus ac y mae ymdrin wedi bod arnynt mewn Eisteddfodau; ond rhâg myned ormod yn amgylchiadol, awn at y Testun.

Y BUCHDRAETH.

AM haniad gwrthddrych y Buchdraeth hwn anhawdd iawn ydyw cyrhaedd sicrwydd, gan fod cynnifer o wahanol farnau yn ei gylch, a rhai o honynt yn sawyru yn drwm gan ofergoeledd; ond er mwyn rhoddi chwareu teg i'r darllenydd i farnu drosto ei hun, caf roddi yma y gwahanol ddywediadau fel ag y maent i'w cael yn yr hanesion a ddaeth i'm llaw, gan amcanu, oddiwrth y cwbl, gael allan y gwir berson amcanedig yn y testun

Yn Hanes Taith Coxe trwy Sir Fynwy, ac ymylau Swydd Henffordd,* cawn fod rhai yn barnu mai hwn oedd y *Sion*, neu'r *Ioan o Gent*, Gwent neu Went, un o'r urdd Babyddol a elwir y Franciscaidd, am yr hwn y dyweda yr hanesydd Leland fel y canlyn:—"Efe a fagwyd yn Nghymru, ac a ddilynodd mor aiddgar brif ysgolion y Franciscaid yn Rhydychen, ac a wnaeth y fath ddiwygiadau mewn dofn ddysgcidiaeth fel yr aeth yn syndod iddei holl frodyr.

"Yn ol hynafiaethau y Franciscaid Saesonaidd, ganwyd ef yn *Nghâsgwent*, (Chepstow,) a daeth yn Athraw Duwinyddiaeth; ac oherwydd ei ragorol rinweddau efe a ddewiswyd yn Wei-

* Coxe's "Tour in Monmouth," Published 1801.

nidog Taleithiol yr Urdd hon yn Lloegr.

"Ysgrifenodd lawer o lyfrau duwinyddol a dysgedig, ac yn neillduol Sylwadau ar Athraw† Dysgeidiaeth Dduwinyddol, Pregethau i'r Bobl, ac ar Byngciau Dadleuol."

Bu farw yn 1348; ac y mae Cofres y Gweinidogion Taleithiol yn dweyd am dano—"Y Brawd Ioan o Went, Duwinydd o Rydychen, yr hwn a wnai wyrthiau yn amser ei fywyd, a orwedd yn Henffordd."‡

Cyduna yr hanes yna yn lled dda â'r hyn a ddywed Coxe, mewn man arall fal hyn:—"Teulu Kentchurch, sef Tŷ y Scudamores, i ba rai y gofynais am wir gymeriad y dewin enwog hwn, ni fedrent roddi i mi un wybodaeth benderfynol; ond yn ol traddodiad, *Mynach ydoedd*, wedi cael ei addysgu yn un o'r prif ysgolion, yn hynod ar gyfrif ei ddysgeidiaeth mewn oes dywell; ei wybodaeth a alwai sylw a syndod ei gyd-ddysgedigion; ac fel y *Mynach Bacon*, a gyfrifid gan y cyffredin yn ddewin, neu gonsurwr." Cadwyd adysgrif o'r Bibl yn y teulu hwn, yr hwn a wnaed, neu a ad-ysgrifiwyd, ganddo ef; ond y mae wedi ei ddystrywio neu ei golli er ys talm; ond yr arlun cydiedig â'r buchdraeth hwn sydd etto yn meddiant J. Scudamore, Ysw., o Gentchurch,§ ger Grosmont, ar gyffiniau swydd Henffordd, lle y dywedir iddo fod yn was cyflog, ac y gwnai yr holl weithredoedd rhyfeddol a nerthol fel dewin; ac yn mhlith yr afrifed (braidd) bethau a wnaeth, meddant, adroddwyd i Coxe yr hyn a ganlyn:—"Pan yn fachgenyn, yn ngwasanaeth rhyw dyddynwr ger Grosmont, carcharodd ryw nifer fawr o frain mewn hên ysgubor ddidô, er eu cadw o'r ŷd, er mwyn iddo gael amser i fyned i ffair Grosmont; ac yn wir," ebai yr hên wrach a adroddai wrth Coxe, "yr oeddent yn ddiogel bob un, a gwnaent sŵn aflafar; ond ni ehedent ymaith hyd oni ddaeth *Jac* ei hun i'w rhyddhau!!"

Dangosir daear-gell *(cellar)* hefyd, yn Kentchurch, fel yr ystabl lle y cadwai ei geffylau, pa rai a dramwyent trwy yr awyr (meddir) gyda chyflymdra dewinesau Lapland; ac oddiwrth ei arlun, sydd wedi ei liwio mewn olew yno, y cafwyd yr un cydiedig yma; ond y brif wyrth ag sydd yn dàl ei goffadwriaeth yn barchus gan drigolion Grosmont ydyw y *bont* a wnaeth dros yr afon Mynyw i dŷ Kentchurch, yr hon a elwir etto *Pont Sion Cent.* Dywedir iddi gael ei hadeiladu mewn un noswaith gan un o'r ysbrydion a gyfrinach-

---

† Wrth Athraw Dysgeidiaeth Dduwinyddol *(Master of the Sentences)* mae i ni ddeall un fel *Peter Lombard*, yr hwn oedd y cyntaf a ysgrifenodd lyfr fel sylfaen Dysgeidiaeth Dduwinyddol oddiwrth opiniynau y Duwinyddion blaenorol (*sentences)* yn arwyddo opiniynau. Argraffodd ei lyfr yn Paris, yn y flwyddyn 1567.

‡ Swydd Fynwy, yn amser goresgyniad y Rhufeiniaid, a feddiennid gan y Siluriaid, a chynnwysai Siluria siroedd Morganwg, Brycheniog, Maesyfed, Henffordd, a'r rhanau hyny o swyddi Caerloyw, Caerwrangon, a Chaerfyrddin a orweddent rhwng yr afonydd Severn, Tawe, a Thowy, felly gwelwn y gallai gwrthddrych yr hanes hon drigo yn Mynwy neu Henffordd, fel y cawn nodi etto.—Coxe. Cyf. 1, tudal. 3.

§ Kentchurch, pentref 11 milldir o Henffordd, ar gyffiniau swydd Fynwy a Henffordd, yn cynnwys tua 51 o dai, a 311 o drigolion yn awr; y mae yno eglwys, a'r fywiolaeth tua £10 12s. 3c. y flwyddyn.—Palas Kentchurch, yr hwn a elwir *Kentchurch Park*, cartrefle John Lucy Scudamore, Ysw., sydd yn gyfagos; mae cae o'i amgylch, tua 4 milldir o gwmpas: adeiladwyd y tŷ presennol gan Col. Scudamore ar y fan y safai yr hên dŷ. Col. Scudamore, y trigiannydd presennol, a briododd ferch y Gwir Anrhydeddus Syr Harford Jones Brydges, o ba un y mae iddo un ferch, a medr hi hôni i linach Owen Glyndwr, tebyg.

Yn agos i Kentchurch y mae Grosmont, tref fechan yn cynnwys tua 130 o dai, a 700 o drigolion; yr eglwys sydd wedi ei chyssegru i St. Nicholas. Gwel "Moule's Dictionary" dan y gair *Grosmont.*

D.S.—Cawn fod teulu y Scudamores yn noddwyr dysgeidiaeth yn foreu, a thra thebyg i'r enwog Syr Walter Scott dderbyn rhan o'i addysg mewn ysgol y cyfranai y teulu hwn ati. Gwel "Gilpin on the Wye."

ai â Sion ; ond dywedai adroddydd y chwedl wrth Coxe "nas gallai, mai y diafol a'i gwnaeth, oblegid na wnai efe weithred mor dda!!"

Dywedir mai yr hên garreg-fedd sydd y tu dwyrain i'r gangell, yn y fynwent yno, sydd yn cuddio ei fedd; a dywed y traddodiad sydd ganddynt iddo gael ei gladdu dan y mur, er dirymu y cyfammod a *wnaeth â'r diafol*, yr hwn (meddynt) oedd yn rhoddi ei gorff i satan, os cleddid ef y tu mewn neu y tu allan i'r eglwys.

Ar ymweliad ein hanesydd â'r lle, yr oedd y garreg-fedd hono wedi ei chuddio ag ysgarthion, yr hyn a'i rhwystrai i'w chanfod; a dywedai y clochydd, ac ereill, nad oedd llythyrenau arni. Ceir gweithredoedd Sion Cent yn mhob genau, braidd, yn Grosmont, a'r pethau a adroddir a ragora braidd ar weithredoedd y Barwn Munchausen; ond y mae rhyw gadwyn ryfedd o gysson o ystoriau gan wragedd a phlant y lle hwn am dano ; a dywedir ei fod wedi gwneuthur ammod â'r diafol, fel Dr. Faustus,* ond iddo fod yn fwy cyfrwys nâ'r gŵr hwnw, a diddymu neu faeddu tywysog y fagddu yn ei fywyd a'i angau !

Gorphenir yma â'i hanes fel Mynach Pabaidd, yn mha un yr ymddengys llawer iawn o anghysonderau erchyll, megis *ei adysgrifiad o'r Bibl* a'i *ysgrifeniadau da a duwinyddol*, a'r gweithredoedd a ddynodid trwy gyfrinach ag ellyllon, neu ysbrydion cyfeillgar, fel eu gelwir yr hyn debygid sydd fel yn dirymu yr hanes, neu yn dangos fod rhyw gymysgfa wedi bod trwy gymeryd arall o'r un enw ag oedd efallai yn ceisio dangos ei hun fel dewin, neu gonsurwr; ond y mae y berthynas rhwng yr hanes gan deulu Kentchurch a'r hyn a ddywed Leland, yn dangos rhyw debygoliaeth mai yr un dyn a feddylir, am y sonir am ei ddewiniaeth gan y ddau, ac hefyd am ei ddysgeidiaeth; mae hefyd rhyw gydiad rhwng ei gladdedigaeth, gan fod Kentchurch ar gyffiniau Henffordd, ac na ddywedir gan yr Hynafiaethau Franciscaidd pa un ai y swydd neu y dref a feddylir ; ond awn rhagom.

Y dyb nesaf a ganfyddwn yw, mai Bardd i Owain Glyndwr (neu Glyndyfrdwy) ydoedd.† Mae yma etto dorch o'r gadwyn hanesyddol perthynol i deulu Kentchurch, gan i un o'r *Scudamores* briodi *merch Owain*, a thra thebyg i *Owain* ymweled yn amser ei encil â'r tŷ hwn; oblegid cawn draddodiad i hên ddewin, mewn gwisg bugail, fod yn cynniwair o amgylch cymmydogaeth Grosmont, ac ymweled â thŷ Kentchurch, ac iddo gael ei gladdu yn ddirgelaidd o dan y gàreg a nodasom am dani o'r blaen, yn mynwent y lle hwn, yr hon a elwir hyd heddyw yn *Feddfaen Sion Cent*, er y myn rhai mai bedd *Owain yw hwnw*,‡ am nad ellir cyrhaedd

---

Nodiadau. "Coxe's Tour in Monmouth," pp. 331.

* Er dangos mor hawdded yr â ofergoeledd ar led, rhoddaf yma ychydig o hanes *Fust*, neu fel y gelwir ef yn gyffredin *Dr. Faustus*. Pan yn Paris yn gwerthu y Biblau ydoedd efe wedi eu hargraffu, am bris isel (fel y tybid y pryd hyny) o 60 coron, yr oedd unffurf, a nifer y copiau ydoedd yn ei feddiant yn creu cyffroad a syndod cyffredinol; achwynwyd arno wrth y llywodraethwyr, dan amheuaeth mai dewin ydoedd, a'i letty a chwiliwyd, a chafwyd nifer mawr o gopiau o'r ysgrythyrau, ac fe'u cymmerwyd; ac yr oeddynt yn dweyd mai ei *waed ef* ydoedd yr *inc coch* â'r hwn yr oedd y llyfrau wedi eu haddurno ; ac yr oeddynt yn barnu yn ddifrifol ei fod mewn *cyfammod â'r diafol;* ac oni buasai iddo ffoi o'r ddinas, tra thebyg y cawsai ddyoddef fel dewin, drwy gael ei losgi gan farnwyr ofergoelus y dyddiau hyny. Gwel "Anianydd Cristionogol," tudal. 201.

† Gweler "Coxe's Tour in Monmouth," pp. 338.

‡ "Pa le y claddwyd Owen, nid oes sicrwydd; ond cawn draddodiad, neu dyb, mai ei fedd ef sydd yn mur dehcuol eglwys Bangor, dan y ffenestr fawr. Mae y gof-golofn, neu y Bedd-faen hwnw yn dra hynod, ac yn cynhell sylw llawer am ei fod yn y mur, a bwa drosto. Nid oes llythyrenau, nac un gorwychder arno ond llun croes anniben lled fawr o faintioli; ond dywedai Hwmffrey, esgob diweddar Bangor, mai bedd-faen Owain Gwynedd yw hwnw, a phrofa ei ddywediad oddiwrth ryw ran o Lyfr Teithiol Giraldus; ond ceir yn nghofiant

llawn sicrwydd am le ei gladdedigaeth; oud tybir ei farw yn nhŷ *ei ferch*, gerllaw yno, ac iddo gael ei gladdu yn ddystaw yno. Ond pa le mae *bedd Sion Cent?* a phaham y gelwir *hwn felly?*

Cawn hefyd yn Nghronicl Baker‡ goffâd am un *Ioan o Gent* yn mhlith y dysgedigion yn amser teyrnasiad Harri y Trydydd; ac mae amseriad ei flodeuad, sef 1360, yn ol yr hyn a ddywed y Dr. Puw, a'r amseriad yn ol Leland, o gladdedigaeth yr Ioan o Went a nodwyd yn cytuno o ran CANRIF; ond y mae y *Sion Cent* y cawn sôn am dano yn y Cambrian Biography§ yn gwahaniaethu yn fawr o ran amser ei flodeuad, sef o 1420 i 1470, ac yn ein harwain braidd i dybied fod DAU¶ wedi bod o dan yr enwau hyn; ac y mae y gwahaniaeth annghymmodlon rhwng eu barnau crefyddol yn rhwystr ansymudadwy i goelio mai yr un ydoedd y *Mynach Pabaidd* a ddarlunia Leland â'r *Lollard* gwresog y sonia y Dr. W. O. Puw am dano; ac mae y darnau barddonol (gan mwyaf) sydd ar gael dan enw *Sion Cent*, yn brofion anwrthwynebol nad Pabydd ydoedd, oddigerth iddo fod unwaith a'u gadael; ond dengys hanes ei gladdedigaeth ef fel mewn undeb â Phabyddiaeth* (os gellir ei goelio) nad ymadawodd a hwynt! Dengys Hanes Coxe a'r Cambrian Biography ei fod wedi bod yn perthyn i deulu y Scudamoriaid, ond y mae yr amseriad fel yn annghymmodlon. Pa fodd i wneuthur â'r anhawsder hwn nid yw yn orchwyl hawdd ei gyrhaedd; ond têg yw rhoddi yma y dyfyniadau o'r Cambrian Biography, gan Dr. W. O. Puw, ynghyd â'r ychwanegiad o eiddo yr un awdwr sydd yn Hanes Coxe ynghylch *Ioan o Went.* Yn y Cambrian Biography, tudal. 317, cawn fel y canlyn:—

"SION CENT, Bardd a Duwinydd enwog, a flodeuodd o gylch A.D. 1420 i 1470; un ydoedd o'r rhai a elwid Lollardiaid, ac ysgrifenodd amryw draethodau ar byngciau duwinyddol yn Lladin, a llawer o ddarnau barddonol yn ei iaith enedigol, pa rai ydynt wedi dàl mewn bri mawr oddiar hyny. Cafodd ei noddi gan y Scudamores, o Kentchester†, yn swydd Henffordd, oherwydd PAHAM EI GELWID YN SION CENT, a'r DR. IOAN CENT. Oherwydd ei ragorol ddysgeidiaeth a'i wybodaeth y cyffredin a'i cyfrifent yn gonsurwr, ac y mae llawer o chwedlau am ei gyfrinach â'r diafol yn awr yn cylchredeg."

Cawn hefyd yr hanes ganlynol fel ychwanegiad i Hanes Coxe, gan yr un Awdwr. Gwel Cox, *Addenda to Chapter*, 34, *p.* 433, *Tour in Monmouth. Pub.* 1801. "Hysbysiaeth bellach ynghylch Sion Cent *a gafwyd oddiwrth Mr. Owen:*—SION CENT ydoedd fardd dewisol yn mhlith y Cymry, ac nid oes nemawr ysgrifau Cymreig ar nad ydynt yn cynnwys rhyw ddarnau o'i waith. Gellir ei resu hefyd yn mhlith yr enwogion boreuol, a'r Lollardiaid, gan fod

---

Owen Glyndwr iddo orphen ei yrfa a'i helbul A.D. 1415; a dywed rhai iddo farw yn nhŷ ei ferch a briododd â Scudamore, ac eraill mai yn nhŷ ei ferch yn Mornington*, oherwydd ynwedai a'r oddau dŷ yn ei adfyd, a thri cyfeilliion ereill hefyd, gan grwydro mewn bugeilwisg." Gweler Nodyn yn Coxe, tudal. 339.

* Mornington ar y Wy, a gynnwys 22 o dai, a 116 o drigolion. Perthynai y tir hwn gynt i un o'r enw a briododd ferch Owen Glyndwr, yn nhŷ pa un y dywedir iddo farw. Gwel "Moule's Dictionary."

‡ Cronicl Baker, tudal. 132.

§ Cambrian Biography, pp. 317.

¶ Tybia awdwyr y "Topographical and Historical Account of Monmouth" nad yr un personau ydoedd yr Ioan o Went a'r Ioan Cent, o Gentchester, ar y seiliau nas gallasai fod y *Duwinydd* yn *ddewin*, na'r *Bardd* a wrthwynebai yr offeiriaid Pabaidd yn Babydd. Gweler "Evans and Bretton's Topographical and Historical Account of Monmouth," pp. 75-

* Gwel Leland, yn Coxe, pp. 336.

† "Kenchester ar Eigne," sydd yn sefyll 5 milldir i'r gogledd-orllewin o Henffordd, yn cynnwys tua 16 o dai a 91 o drigolion; lle enwog gynt fel un o brif orsafoedd y Rhufeiniaid, ac a elwid *Magna Castra*, pan hefyd y gelwid y Fenni yn *Gobannium*. Gwel "Moule's Topographical Dictionary."

ei ysgrifau yn gynnwysedig o athrawiaethau hollol wrthwynebol i'r Ffydd Babaidd. Ei ddewrder i osod y fath bethau mewn ysgrifen a fuasai yn ei arwain i berygl mawr, pe gwnaethai ddefnydd o iaith a ddeallid yn fwy cyffredinol. Anhawdd ydyw rhoddi cofres o'i holl waith awdurol, oherwydd eu bod yn dra lluosog, ond cymmerwyd y daflen ganlynol allan o ddangoseg Llawysgrifau yr Ysgol Gymreig.

Tybia Mr. Owen i Awdwr y darnau isod flodeuo rhwng (efallai) A.D. 1360 *a* 1430.

COFRES O DDARNAU BARDDONOL, GAN SION CENT, YN AWR AR GAEL.

1. Tri Amser Bywyd
2. Y Drindod
3. Y Greadigaeth
4. Gwahoddiad i foli Duw am ei Ras
5. I'w Gôd ei hun
6. Y Byd
7. Yn dangos Adfyd y Byd
8. Galareb am Sefyllfa y Cymry dan Harri y 4ydd
8. Ar y Byd, gyda chymelliad i ymddiried yn Nuw
10. Cyfnewidioldeb y Byd
11. I'r Balch a'r Trachwantus
12. Ar y Byd
13. I Dduw
14. Ar y Byd
15. Ar yr un Testun
16. Anerchiad at Dduw
17. Eglurhad ar y 22 ben o Luc
18. Y Cybydd
19. Ar y Deg Gorchymyn
20. Cân Dduwiol
21. Dydd Barn
22. Y Saith Pechod Marwol
23. Anerchiad i'r Duwdod
24. I'r Byd
25. Yn erbyn Mwrddrad
26. Sen i'r Beirdd
27. Sen i'r Offeiriaid
28. Y Cybydd
29. Y Rhagddywediad
30. Y Tri Gelyn Marwol
31. I Hên Oedran
32. Y Prynedigaeth
33. Cwymp Dyn
34. I'r Byd
35. Ar Fywyd Dyn
36. I'r Byd
37. Darn Duwinyddol
38. Yr un testun

(I'w barhau.)

CATWG DDOETH.

Parhâd o tudal 43.

1.—Y GWYDDFARDD CYFARWYDD.

A fyno gynghor gofyned i'r doethaf,
A fedro ganmol canmoled y penaf,
A eirch olud arched i'r cyfoethocaf,
A eirch iechyd arched i'r meddyg mwyaf,
A gais a fo da gofyned i'r haelaf.
A gais nodded gofyned i'r un cadarnaf,
A gais drugaredd arched i'r mawr trugaraf,
A gyfarcho cyfarched i Dduw 'n benaf.

2.—CARGYFLWYN CATWG DDOETH.

Y daith ni fydd pellach er gwrando offeren.
Nid prinach fydd heiniar er rhoddi elusen.
Nid llawnach yr enaid er trallenwi rhumen.
Nid casach gan Ddofydd yr ynfyd na'r cymen.
Ni ŵyr perchen enaid pa beth fydd ei ddien.
Nid clodfawr y gardod o'i rhoddi'n aflawen.
Nid gwala gan gybydd meddiannu y ddaiaren,
Nid isel ond balch, be bai gyfuwch a'r haulwen.
Nid caredig ond gwar, nid gwybodus ond hylen.
Nid gwynfyd ond heddwch, nid gwledd ond gorawen,
Nid doeth pob areithgar, nid ffol pob annghymen.
Nid trist pob galarus, nid dyddan pob llawen,

Ni edrych yr angau pwy decaf ei dalcen,
Nid caredig gan Dduw un a ddalio genfigen
Nid hygar gan Grist, na fo drugar wrth angen,
Nid cymhwys i'r nef na fo trech ar ai gordden.
Nid call arwain awydd at un peth anmherchen,
Nid cellwair a dim a fo cynglyn ag asgen.
Nid ffolineb ond cred ar a ellir yn amgen.
Nid doeth gwerthu nefoedd er benthyg elfydden.

Catwg Ddoeth a'i cant.

3.

O gadw dy air y cedwi dy wyneb,
O gadw dy gof y cedwi ddoethineb,
O gadw dy ddwrn ti a gedwi dy dda
O chedwi dy glod cadw heddwch ai gwna.
O gadw dy ddydd ti a gedwi dy ddawn.
O gadw'th gydwybod ti a gedwi bob iawn.

Catwg Ddoeth a'i cant.

(I'w barhau.)

DAIL COED A LLYSIAU, EU SWYDD &c.

Syr,—Parotoais y mis hwn ar gyfer yr *Ymofynydd* draethawd arall ar werin-addysgiaeth. Ei sylwedd yw pwyso a chydmaru rhesymau y ddwy blaid, un yn erbyn, a'r llall tros, dderbyn cynnorthwy oddiwrth y llywodraeth; ond oherwydd rhyw achos neu gilydd bernais mai gwell yw peidio ei gyhoeddi yn Rhifyn Mawrth. Am hyny nis gallaf roddi un *cymhorth* y mis hwn i'r *Ymofynydd* oni fernwch fod yr ychydig linellau canlynol yn llyngu lle yn rhyw gornelyn o hono. Os felly, maent at eich gwasanaeth.

Yn enw pob synwyr, medd rhyw un, beth ydd gennych i ddyweyd am ddail coed, ond mai dail coed ydynt.

Pan yr ydwyt yn gweled y llysiau a'r coed-ydd yn misoedd Mawrth, Ebrill, a Mai, yn torri allan yn ddail a blodau, a holl natur yn adfywio, ac megis yn gwisgo am dani ei mantell oreu, gwelaf mai ychydig ydwyt ti yn wybod am y diben sydd gan y CREAWDWR DOETH a DA yn eu haddurno a dail; ychydig ydwyt ti wedi feddwl am eu gwasanaeth i fywyd, ac iechyd, a chynnydd llysiau, blodau, a ffrwythau.

A wnaethost ti, ddarllenydd, erioed sylw, pan yn rhodio yn y goedwig, ar ambell ddeiled grin yn yr hon y gwelaist megis edau yn yn gwau trwy eu gilydd fel rhwyd? Pan oedd y ddeilen hono yn fyw ac yn llawn twf, attebai yr edau a welaist yr un diben iddi hi ac a wna gwythienau yng nghorph dyn ac anifail. Yr oeddynt yn gau, ar sûdd neu'r *sap* yn tramwy trwyddynt yn ol ac ym mlaen.

Pe daliet sylw manol arnynt, caet weled fod dau fath o edau neu wythienau yn perthyn i'r un ddeilen, yn ochr yn ochr, a chyfrwng rhyngddynt yn y brigau. Swydd un hân o'r gwythienau yw cludo'r sûdd o'r rhisgl tufewnol neu'r *Epidermis* i'r ddeilen, a swydd yr hân arall yw ei gludo yn ol drachefn i'r rhisgl. Heblaw y gwythienau, mae hefyd yn y ddeilen, pan yn llawn twf, filiynau o gelloed bychain *(cells)* anweledig heb gymhorth chwyddwydrau. Gorchuddir holl gorph y ddeilen a chroen teneu *(cuticle)* yn cynnwys lluoedd aneirif o fân-dyllau *(pores)*. Swydd y croen hwn yw amddiffyn corph y ddeilen rhag gwres, oerfel, a gwlybaniaeth, ac y mae yn galed neu yn dyner yn ol natur y lle y byddo y pren neu y llysieuyn yn arfer tyfu.

Yn nesaf, rhoddaf wybod i ti ddiben y celloedd a'r gwythienau hyn. Attebant yr un diben yn y ddeilen ac a wna'r ysgyfaint mewn creadur. Trwy wythienau y ddeilen y mae'r *sap* neu'r sûdd yn tramwy i'r celloedd i gyfarfod a'r awyr a dreiddia trwy'r *pores* neu'r mândylliau. Yno y cymer rhyw fath o gyfnewidiad fferyllawl le yn y sûdd i'r diben i'w buro a'i addasu i gyfansoddiad y llysieuyn. Wedi cymero yr effaith hyn le, cludir y sûdd eilwaith yn ol trwy y gwrthwythienau i gelloedd tufewnol y rhisgl lle yr una yn raddol a chorph y pren neu'r llysieuyn. I ffurfio rhyw feddwl am fesur y sûdd a gyfarfydda a'r awyr yn y dail, meddylia fod holl ddail sycamorwydden o faintioli cyffredin, yn un ddeilen; byddai ei harwynebedd yn fwy neu yn llai na deugain llathen ysgwâr yn ol maintioli y pren. Pa lleiaf yw maint y ddeilen mwyaf y nifer o honynt ar y pren

Trwy gyfrwng y dail hefyd yr ymgymysga y *carbonic acid* sydd yn yr awyr â'r sûdd. *Carbon* neu *charcoal* yw prif sylwedd coed a llysiau. Pa fodd y mae y ddeilen yn gallu gwahanu y *carbon* oddiwrth yr awyr, sydd

ddirgelwch nad oes neb hyd yma wedi medru ei egluro; ond y mae'r ffaith yn wir. Hefyd tra fyddont yn sugno *carbon* y maent yn taflu allan yr hyn sydd yn weddill o'r *oxygen* wedi y cymero y sûdd gymaint o hono ag sydd eisiau at ei wasanaeth. Ond dal sylw, nid yw y dail yn sugno *carbon* nac yn taflu allan *oxygen* ond yn unig yng ngwres o goleuni yr haul: yn y tywyllwch nid ydynt yn gwneuthur y naill nar llall, ond y mae'r *oxygen* yn myned ar goll a'r *carbon* yn cael ei ryddhau. *Dr. Priestley* oedd y cyntaf a ddatguddiodd y briodoledd ryfeddol hon ag sydd wedi peru cymaint o syndod i naturiaethwyr.*

Oddiwrth hyn y mae yn canlyn, fel y sylwais ys misoedd yn ol yn fy Nhraethawd ar Awyr, mae arfer annoeth a niweidiol i iechyd yw cadw llysiau i dyfu mewn ystafell, oblegid fod mwy neu lai o *garbon* yn nofio yn isel yn yr awyr oddiamgylch iddynt. Mae anadlu *carbon* wedi bod yn achos o angeu i rai cyn hyn.

Y mae y briodoledd hon o eiddo coed a llysiau yn ddiau yn un o'r moddion a ddarparwyd gan y CREAWDWR DOETH i buro'r awyr o'r *carbon* a greuir gan anadlau yr holl filiynau o greaduriaid sydd ar wyneb y ddaiar. Y mae'r un darpariaeth hefyd wedi cael ei wneyd i gynnal bywyd a iechyd pysgod mewn llynoedd, afonydd, a moroedd. Y mae llawer iawn o'r peth a elwir "awyr sefydlog" mewn dwfr, onite ni allai'r elfen gynnal bywyd pysg. Gwaith y pysgodyn yn agor ac yn cau ei dagell yw gollwng dwfr i mewn i'r cribau sydd odditani, lle mae ysgariad yn cael ei wneyd rhwng y dwfr a'r awyr sefydlog, ac hefyd rhwng yr *oxygen* a'r *carbon* sydd ynddo. Y *carbon* a deflir allan i'r dwfr, ond yr *oxygen* a una a'r gwaed sydd yn y cribau tan y dagell. Y mae peiriant y rhywogaeth lyswenaidd yn wahanol, ond yn atteb yr un diben. Yn awr oni bai fod y llysiau sydd yn tyfu yn y dwfr yn sugno y *carbon* a greuir gan y pysg bydd-ent feirw oll cynted ag y gorlenwid y dwfr a'r sylwedd hwnw.

Hefyd y mae gallu gan goedydd a llysiau trwy gyfrwng eu dail i daflu allan ac i sugno i mewn ddwfr. Bernir fod y llysieuyn hardd hwnw a elwir *sun-flower* yn chwysu ar ddiwrnod brwd a sych ddim llai na 30 wns o darth mewn 12 awr! Y ffaith fod dail yn sugno dwfr a ellir brofi trwy dorri ymaith gangen îr llawn twf a gorchuddio y clwyf a chlai neu gwyr, ac yna ei gadael i aros yn y cyflwr hwnw mewn awyr sych; dechreua y dail ym mhen ychydig amser wywo am fod y lleithder sydd ynddynt yn dianc allan yn darth trwy'r *pores* a dim sûdd newydd yn myned iddynt o gorph y pren i wneyd i fyny y golled. Gormodedd o ddwfr yn y sûdd yw'r achos o'r chwysiant. Pe symudid y gangen i le llaith adfywiai dra chefn dros ychydig amser, oblegid er nad oes sûdd newydd yn tramwy i'r dail, y mae dwfr yn treiddio i mewn iddynt trwy y *pores* ac yn cadw yr hen sûdd mewn cyflwr *toddedig*. Y mae dail rhai math o goed er hyny yn eithriadau i'r drefn hon megis y bocyswydden a ffeinidwydd. Mae effaith y drefn yn dra adnabyddus i lawer, yn enwedig y ffermwyr. Nid oes achos dyweyd wrthynt hwy y sycha gwair ar dywydd sych a brwd mewn ychydig o oriau ar ol ei ladd, ac ar dywydd llaith y parha yn iraidd am ddiwrnodau lawer. Yr achos o hyn yw fod y dail ar ol eu lladd yn parhau i sugno gwlith a lleithder fel y gwnaent pan oeddynt yn tyfu.

Nid ammhriodol hefyd fyddai sylwi yma ar yr effaith rhyfeddol a ga goleuni ar ddail. Goleuni yw yr achos o'u lliw, oblegid mae lliw llysiau a dyfant mewn tywyllwch yn tynu at y gwyn. Ar yr egwyddor o gau allan y goleuni oddiwrth goesau y dail trwy eu claddu yn ddwfn mewn pridd y mae'r garddwyr yn *bleacho* neu yn gwynu *celery*. Nid oes dim yn fwy hanffodol i fywyd ac iechyd llysiau a choedydd na goleuni a gwres yr haul, er hyny mae yn niweidiol i wrthwyneb y ddeilen; er prawf, trowch wrthwyneb cangen llawn dail at yr haul, ac ym mhen ychydig ymddangosant yn wywllyd. Cymaint yw dylanwad gwres a goleuni ar goedydd ffrwythau, fel nid yn unig y mae eu dail yn troi at yr haul, ond y cangenau hefyd. Llawer gwaith yng nghymdogaeth dawel Afon Dyar—lle treuliais oriau difyr a diofal ieuenctid—amser na welaf byth mwy o'i fath—llawer gwaith y buais yn eistedd yn y cûdd wrth ochr cnŵd o feillion *(clovers)* cynnyrchiol, yn darllen rhyw hen lyfryn llarpiog yn perarogli gan fŵg y mawn, ac yn difyru fy hun wrth weled dail y meillion yn y boreu oll yn troi tua'r dwyrain, tua'r dê ganol-dydd, ar gorllewin yn yr hwyr. Ymddangosai yr olygfa i mi yn un ardderchog anghyffredin. Ond, syr, ofnaf fy mod yn rhy faith ac yn cadw lle rhyw beth a fyddai yn fwy blasus gan eich darllenwyr.

D. L. Evans.

---

* Efallai nad yw pob un yn gwybod beth yw Oxygen a Charbonic Acid. Math o darth anweledig yw Oxygen oddeutu un rhan o ddeg yn drymach na'r un mesur o awyr. Y mae yn hollol amddifad o bob archwaeth ac arogl. Y mae yn gwneyd i fyny 21 o gant o'r awyr y'm yn anadlu. Oni bai fod cymaint o hono yng nghymysg a'r awyr byddai pob creadur ar dir a mor farw mewn eiliad; ni allai na than gynnu na llysiau dyfu. Y mae yn bosibl creu Oxygen a'i ddodi i gadw mewn costrel wydr. Y ffordd fwyafrhwydd a wn i am dani yw'r un ganlynol;---Cymerwch hen faril dryll, gosodwch blwg haiarn yn dŷn yn y touch-hole; yna maluriwch Saltpetre yn fan ac arllwyswch ef iddi; yng ngenau y faril gosodwch bibell ar lun S yn dŷn mewn costrel wydr hanner llawn o ddwfr, yna gosodwch ben isaf y faril mewn tan, ac yn fuan cyfyd tarth neu Oxygen i fynu trwy'r dwfr i barthau uchaf y gostrel. Gwnai Manganese well tro na Saltpetre.

Eto, beth yw Carbonic Acid? Coed neu lo wedi golosgi yw carbon; y mae yn ddu, yn frau, ac heb archwaeth nac arogl. Mae yn ammhosibl ei doddi, sugna bob math o surni, a phe gosoddid dernyn o hono

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD YMHERODROL

Chwefror 1.

Agorwyd y Senedd Ddydd Iau gan ei Mawrhydi yn bersonol, yr hon a ddeuai i Dŷ yr Arglwyddi mewn rhwysgfawredd arferol ar y cyfryw achlysuron, pryd y darllenodd yr araeth ganlynol, yn eglur a dealladwy.

ARAETH Y FRENHINES.

FY ARGLWYDDI A BONEDDIGION,

Gan fod y tymor arferol i gymeryd i fynu a dwyn yn mlaen alwedigaeth y Senedd wedi dyfod i ben, myfi a'ch gelwais yn nghyd i'r dyben o gyflawni eich dyledswyddau pwysig.

Y mae yn foddlonrwydd i mi y gallaf hysbysu bod y pleidiau ymrysonus yn Ngogledd a Deheubarth Ewrop wedi cyd-gytuno ar amodau heddwch.

Yr oedd y cyrchryfeloedd a ddygid yn mlaen yn Ynys Sicily, mor dra arswydlawn yn eu canlyniadau, fel y cynhyrfid y Llyngeswyr Prydeinig a Ffrengig, gan ystyriaethau o ddyngarwch, i gyfryngu er attal ychwaneg o dywallt gwaed.

Cymerais y fantais o'r adeg hon o oediad y rhyfel i gynnyg, i frenin Naples mewn cysylltiad â Ffrainc, trefniadaeth a duedda i ddwyn achosion Sicily i derfyniad sefydlog a pharhaol.

Y mae y drafodaeth ar y materion hyn yn cael ei dwyn yn mlaen yn awr. Fy ymdrech bryderus, wrth gynnyg fy ngwasanaeth i'r gwahanol alluoedd ymrysonus ydoedd, attal trychinebau rhyfel rhag ymledaenu, a gosod i lawr sylfaen heddwch anrhydeddus a pharhaus.

Fy nymuniad gwastadol ydyw diogelu cyfathrach gyfeillgar â'r holl lywodraethau tramor.

Mor fuan ag y caniatao llesiant y gwasanaeth cyhoeddus i hyny fod, mi a archaf ar fod i'r papyrau perthynol i'r gweithrediadau hyn gael eu dodi ger eich bronau.

Torodd gwrthryfel o natur ddychrynllyd allan yn y Punjaub, a gorfu rhaglaw cyffredinol India gynnull byddin gref yn nghyd, er mwyn diogelu heddwch y wlad, yr hon sydd yn awr ar waith milwraidd yn erbyn y terfysgwyr; ond nid yw tawelwch India Brydeinig wedi ei dori gan y terfysgau diachos hyny.

Yr wyf drachefn yn cymell i'ch ystyriaeth yr attalfeuon hyny ar fasnach a achosir gan y cyfreithiau morwriaethol.

Os cewch allan bod y cyfreithiau hyn, yn gwbl oll, neu mewn rhan, yn ddiangenrhaid er diogelu ein hawdurdod forawl, tra yn cloffrwymo masnach a diwydrwydd, chwi a welwch yn ddiau, mai dyledus fydd eu dileu, neu ddiwygio eu darbodion.

FONEDDIGION TY Y CYFFREDIN,

Erchais fod i'r amcangyfrifon traul gwasanaeth y flwyddyn gael eu gosod o'ch blaenau. Ffurfir hwy gyda'r gofal manylaf am gynnildeb doeth.

Y mae agwedd bresenol pethau yn fy ngalluogi i wneuthur mawr leihad ar draul y ffwyddyn ddiweddaf.

FY ARGLWYDDI A BONEDDIGION.

Yr wyf yn sylwi gyda boddhâd ddarfod i y rhan hon o'r Deyrnas Gyfunol barhau yn dawel yn nghanol y cynhyrfiadau a ysgydwent gynifer o wledydd Ewrop. Er nad yw y terfysg yn Iwerddon wedi ail dori allan, y mae ysbryd anfoddogrwydd fyth yn parhau yno, ac yr wyf, er mawr ofid, dan orfod, i ofyn am barhâd, dros fyr dymor, o'r mesurau hyny a farnasoch yn angenrheidiol er diogelu yr heddwch cyffredin.

Y mae yn fawr hyfrydwch i mi grybwyll fod masnach yn ymadfywio wedi y gwasgfeuon hyny yr oedd genyf achos i gwyno o'u plegid ar ddechreuad y Senedd-dymor diweddaf.

Y mae cyflwr y parthranau llaw-weithiol hefyd yn fwy gobeithiol nag y bu er ys cryn amser,

Y mae yn hyfrydwch i mi hefyd i weled bod y gyllidaeth ar welliant a chynnydd.

Y mae yn ofidus i mi, o'r tu arall, fod methiant cynnyrch y pytatw wedi achosi gwasgfa galed iawn mewn rhai parthau o Iwerddon.

Bydd gweithrediadau y gyfraith er cynnorthwyo y tlodion yn Iwerddon yn debygol o ddyfod dan eich ystyriaeth, a chaiff unrhyw fesurau a dueddant i ddiwygio y cyfreithiau hyny, a gwellau cyflwr y bobl, fy nghydsyniad calonog.

Yr wyf yn edrych ar ysbryd breingarol fy mhobl gyda llawenydd a diolchgarwch, a'r ymlyniad hwnw a ddangosant tuag at ein sefydliadau gwladwriaethol drwy ystod tymor o wasgfeuon masnachol, prinder cynnyrchion ymborth, a chwildroadau gwladwriaethol.

Yr wyf yn dysgwyl am nawdd yr Hollalluog Dduw a'i ffafr arnom rhaglaw, a hyderaf y cynnorthwywch fi i ddal i fynu ffurfadail y cyfansoddiad, yr hwn sydd yn seiliedig ar egwyddorion rhyddid a chyfiawnder.

---

mewn Vinegar elai ei surni oll i'r Carbon. Pe gosodech ddernyn o hono hefyd mewn costrelaid o Oxygen, unai yr Oxygen ag ef mewn ychydig fynydau; a phe llosgid Carbon llawn o Oxygen, Carbonic Acid fyddai y tarth a gyfodai o'r tan. Pe anadlai dyn neu anifail Garbonic Acid byddai farw mewn mynyd. Y mae weithiau i'w gael yn ngwaelod hen bydew neu bwll glo, neu gerwyni berwyddu; am hyny dylid peidio myned yn fyrbwyll i mewn iddynt, oblegid mae llawer wedi dyfod felly i angeu disyfyd. Pe teflid calch brwd iddynt yn gyntaf symudid y perygl oblegid elai y Carbonic Acid i mewn i'r calch.

CWRDD CWARTEROL

Merthyr Tydfil.

Cynnalwyd Cyfarfod Cwarterol Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth dydd Iau, yr 28n o Ragfyr, yn Nghapel Twynyrodyn, Merthyr Tydfil. Y Nôs o'r blaen, dechreuwyd y cwrdd trwy ddarllen a gweddi gan Mr. D. L. Evans, Penybont, a phregethodd Mr. Lloyd o Gaerfyrddin, yn Saesoneg a Mr. P. Joseph, Ciliau, yn Gymraeg.

Boreu dydd Iau, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen cyfran o'r Ysgrythyr a gweddi gan Mr. J. Thomas, Llandyssul; pregethodd Mr. W. James o Fristo' yn Saesoneg, a Mr. J. James. Gellionnen, yn Gymraeg. Fel y mae yn arferol, bu cynnadledd agored i'r gynulleidfa yn gyffredinol ar ddiwedd y cwrdd. Y pwngc i lefaru arno oedd, *natur a diben cosp, yn y byd hwn a'r byd a ddaw.*

Penderfynwyd ar fod y Cwrdd nesaf i fod yn yr Onnenfawr ger Llandilo, y dydd Iau cyntaf ar ôl y Pasg.—Mr. O. Evans, Cefn-Coedycymar, i bregethu; a'r un pwngc, *natur a diben cosp,* i fod dan ystyriaeth y Gynnadledd yno.

Prydnawn dydd Iau, pregethodd Mr. W. James o Fristo' yn Seasoneg a Mr. D. Griffiths, Llandilo, yn Gymraeg.

Yr oedd llawer wedi crynhöi ynghyd, gweinidogion ac ereill o'r gymydogaeth ac o bell. Yr oedd y gynulleidfa ar bob un o'r oedfäon yn lluosog, a'r gwrandawiad yn brydferth ac astud. Y mae pob argoelion fod y Cyfarfod wedi bod o lês, er adfywio yr achos yn y lle.

Yn union ar ôl y Cyfarfod boreuol gwahoddwyd y gweinidogion ag oedd yn bresennol i fyned gyda'u gilydd i'r Gwestŷ gyferbyn a'r Capel, lle yr oedd ciniaw wedi ei darparu iddynt ar draul Undodwr sêlog a haelionus, Mr. Howells o Ferthyr. Ciniawodd ar yr un pryd gydâ hwynt, amryw o drigolion cyfrifol y dref, a dieithraid a ddygent zêl dros Undodiaeth.

Ar ôl ciniaw, wedi dewis Mr. D. James i'r gadair, treuliwyd awr neu ddwy mewn ymddiddan tra buddiol gydâg areithiau oddiwrth y cadeirydd, Mr. Evans o'r Cefn, Mr. James o Fristo' ac ereill ar y moddion goreu o fewn cyrhaedd er adfywio achos Undodiaeth mewn perthynas â'r Capel ac a'r dref boblog hon. Cyttunwyd ar y cynllun o gael amryw weinidogion o Loegr a Chymru dros rai misoedd, i roddi darlithiau ar Undodiaeth yn y Capel, yn Saesoneg ac yn Gymraeg bob yn ail Sabboth, ac a'r roddi hysbysiaeth gyhoeddus o flaen llaw beth fydd testyn pob darlith. Rhoddwyd addewidion pur wresog gan un a'r llall am gryn swm o arian tuag at y draul.

Y mae Mr. James o Fristo' a'r brodyr ereill sy'n gweinidogaethu ar gyffiniau Cymru, wedi dangos parodrwydd neillduol i gydweithio er gwneud y cynllun yn llwyddiannus.

Dechreuwyd ar y cynllun Ionawr yr 21ain gan Mr. O. Evans o'r Cefn. Testun ei ddarlith oedd, "Dylanwad Trindodiaeth, ac Undodiaeth yn cael eu cyferbynu." Yr 28ain traethodd Mr. Armstrong o Fristo' ar, "Undodiaid, beth maent yn ei addoli, a phaham." Chwefr. y 4edd. Mr. James, Gellionnen, ar "Ddaioni Duw. Yr 11eg. Mr. Solly o *Cheltenham* ar, "Grist a'i Dad Nefol." Disgwylir Mr. Lloyd o Gaerfyrddin ar y 18ed. Nid ydym wedi cael hysbysiad beth fydd testun ei ddarlith ef na'r rhai sydd i'w ganlyn yn eu tro. Ond yr y'm yn clywed fod y gwrandawiad hyd yma wedi bod yn lluosog anghyffredin, a'r darlithiau yn effeithiol dros ben.

I.

ADDYSG YN NGHYMRU

Cyfarfod yn Abertawe.

Nos Wener y 26ain. o Ionawr cynnalwyd cyfarfod yn y *Town-hall,* Abertawe, wedi ei alw ynghyd gan y Maer ar gais nifer luosog a pharchus o'r trigolion, i'r diben i roddi cyfleusdra i W. Williams, ysw., i egluro ei gynllun o addysg yn Nghymru, ac i sefydlu, nid heb gymmorth y llywodraeth, goleg cyffredinol, agored i bob enwad crefyddol yn ddiwahaniaeth heb olwg ar farn na chredo, gyda chyfran o hono er addysgiad neillduol ysgolfeistri. Llenwid yr *Hall* yn orlawn hir o amser cyn pryd dechreu.

Yn absenoldeb y Maer, cymerid y gadair gan L. L. Dillwyn, ysw.

Y cynnygiad cyntaf a ddodwyd o flaen y cyfarfod gan M. Moggridge, ysw. "Bod y cyfarfod hwn oddiar ddwys argyhoeddiad o'r mawr bwys a'r angenrheidrwydd o helaethu addysg yn Nghymru, yn gwahodd bob dosparth i gyd-weithredu mewn ymdrech i sefydlu Coleg er addysgu ysgolfeistri i'r wlad, yn agored i bob enwad crefyddol yn ddiwahaniaeth."

R. Awbrey, ysw. a eiliodd y cynnygiad, gan roddi ei resymau paham y tynasai ei gymmorth oddiwrth y *Normal College,* dros yr hon y buasai efe, fel Undodwyr eraill, yn bur sêlog, hyd nes cafodd allan fod y sefydliad hwnw wedi ei benderfynu yn Nghaerfyrddin i fod dan lywodraeth y chwech enwad yn unig.

J. M. Buckland, ysw. a gynnygiodd y gwelliant canlynol:—"Nad yw y cyfarfod hwn, tra yn ymwystlo i gefnogi addysgiaeth yn neillduol ymhlith y dospeirth tlodion, yn gallu cymeradwyo unrhyw drefniant o *addysg dymhorol* yn unig, gan olygu fod y cyfryw yn anghyttunol âg egwyddorion a thcimladau crefyddol y Dywysogaeth." Wedi eilio y gwelliant aeth yn gyffro mawr drwy'r gynulleidfa; ond o'r diwedd cyttunwyd i beidio a dodi y gwelliant o flaen y cyfarfod hyd nes byddai W. Williams wedi cael gosod ei olygiadau o'u blaen.

Yna y cyfododd Mr. Williams, a derbynid ef gydag arwyddion uchel o gymeradwyaeth. Ammhosibl fyddai talfyru sylwedd ei araeth gynnwysfawr heb wneud cam â hi. Felly am yr areithiau ereill a draethwyd dros ac yn erbyn y cynnygiad.

Dros y cynnygiad llefarwyd ar ôl Mr. W. gan y Parch, J. Rhys Jones, o Kilsby.

Yn ei erbyn llefarodd Mr. E. Davies, Athraw y *Normal College*, ac yr oedd yn awr wedi hanner nos. A chyttunwyd i ohirio y cyfarfod i nos Lun.

Nos Lun a ddaeth; yr oedd yr *Hall* yn llawn fel o'r blaen. Llefarodd y Parch W. Howells a'r Parch W. Jones, &c., yn erbyn y cynnygiad, a'r Parch D. Davies (Bedyddiwr) drosto. Pan ddaethpwyd i arwyddo trwy gyfodiad dwylaw at ba ochr y tueddai pob un, penderfynodd y Caedeirydd, nid heb beth petrusder, fod y mwyaf rif dros y cynnygiad yr hwn a gefnogai gynllun Mr. Williams. Ymwasgarodd y cyfarfod rhwng deuddeg ac un o'r gloch. Y cynnulliad mwyaf cyffrous a thryst-fawr a welsai Abertawe er ys llawer blwyddyn.

YR ETHOLIAD YN SWYDD ABERTEIFI

Cymerodd yr etholiad o aelod seneddol, dros drefydd bwrdeisiol swydd Aberteifi, le ddydd Sadwrn yr 9ed o Chwefror, a therfynodd yn nychweliad Pryse Pryse, ysw. yn lle ei ddiweddar barchus dad. Dydd Gwener, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn neuadd tref Aberteifi, y maer, Wm. Phillips, ysw. yn y gadair, pryd y cynygiodd W. H. Lewis, ysw. Clinfiw, ar fod i—Harford, ysw. gynnyrchioli y bwrdeisdrefi yn y senedd; a gwnaeth araeth fer ar ei deilyngdod. Eilid ef gan D. Davies, ysw. marsiandwr, Aberteifi. Yna cynnygiodd — Lloyd, ysw. Coedmor, Pryse Pryse, ysw. a thraddododd araeth a darawai yn dda ar yr amgylchiad. Eiliodd Capt. Davies. Annerchodd Mr. Harford y lluaws, tra yr oedd y cannoedd plant a dynion segur y lle yn gwaeddi *Pryse for ever!* Fel na ellid clywed y boneddwr ond gan y rhai nesaf ato. Wedi hyny cyfarchai Mr. Pryse y dorf a chafodd wrandawiad lled dda. Cynnygiodd Counsellor Hall, Castellnewydd, annerch y lluaws, ond gorfu iddo dewi yn lled fuan gan stwr y dorf yn bloeddio *Pryse for ever, &c,* Cymerai yr etholiad le y dydd canlynol yn y gwahanol fwrdeisdrefi, ac am bedwar o'r gloch prydnawn, terfyniad yr ymryson, yr oedd y nifer a bleidleisent dros bob un yn y gwahanol fanau fel y canlyn:

	Pryse.		Harford.
Aberystwyth .	182	.....	71
Aberteifi	28	.....	120
Llanbedr	49	.....	78
Castellnewydd	40	.....	22
	299		291

Mwyafrif dros Mr. Pryse, 8.

Gwelir fod yr ymdrech yn galed; ond y mae cyfeillion egwyddorion rhydd yn Aberystwyth a'r Castellnewydd wedi gweithio yn egnïol.

Y Ddyled Wladol.—Y mae Mr. Rigby Wason, diweddar aelod seneddol dros Ipswich, wedi cyhoeddi cynllun i dalu ymaith y ddyled wladol, yr hon sydd yn bresenol yn wyth can' miliwn o bunnoedd. Ei farn ef ydyw mai anonest ydyw peidio ei thalu mor fuan y mae yn bosibl, na ddylid ei gadael fel maen melin am yddfau yr oesau dyfodol, ac mai teg ydyw iddi gael ei thalu gan y rhai a gawsant y llês oddiwrthi—sef gan berchenogion eiddo. Ceisia ddangos na buasai o ddim gwahaniaeth i'r tlawd pe buasai y wlad hon wedi cael ei darostwng gan Ffrainc; ni buasai modd i'w gyflog ef fod yn llai, na'i fywoliaeth yn salach nag ydyw. Er mwyn pwy ynte yr äed i gymaint traul i wrthsefyll yn llwyddiannus oresgyniad y wlad hon gan y Ffrancod? Y mae synwyr cyffredin yn ateb mai er mwyn *perchenogion meddianau.* Gall'sai y cyfryw oresgyniad fod yn golled fawr iddynt hwy, oblegid dichon y buasai ambell Ffarmwr yn cael anrheg o balas un, ac o diroedd y lleill. Gan hyny barna mai teg ydyw i'r rhai a gawsant y llês dalu am dano. Ei gynllun ydyw ar fod holl berchenogion eiddo i gael eu trethu i bum' punt y cant ar eu derbyniad blynyddol am ugain mlynedd. Barna y byddai treth o'r swm hyny ar ardreth blynyddol y deyrnas am *ugain mlynedd*, yn ddigon i ddileu yr holl ddyled wladol! Tybai na phwysa y dreth hon yn drwm ar berchenogion eiddo yn gymaint ag yr arbedant dalion o lawer iawn o drethion ereill Dichon fod rhwystrau mawr-ion o flaen gosod cynllun o'r fath hwn mewn gweithrediad, ond er hyny teilynga ystyriaeth fanwl Fel y mae pethau yn myned rhagddynt yn bresenol chwanegir y ddyled yn lle ei thalu. Rhaid gwneuthur rhywbeth; ac y mae'r sylw a delir yn bresenol i'r mater yn brawf nad ellir oedi yn hir.

RHUFAIN

Cafwyd allan yn ddiweddar fod cyd-frâd ar droed yn Rhufain er adferu y Pab. Arbedwyd bywydau y cyd-fradwyr; ond gorfu iddynt yn ddioed ym-adael â thaleithiau y Ddinas. Aeth yr etholiadau drosodd mewn mod tra ffafriol i'r Weriniaeth. Hyd yma y mae argoelion yr eir yn mlaen yn bur awyddus a rheolaidd i sefydlu y *constitution.* Ymddengys nad yw y Rhufeiniaid hyd yma yn teimlo nemawr o alar neu golled or ôl eu Pennaeth Ysbrydol; gan nad sut y bydd arnynt os cyflawnir bygythiadau y teyrnasoedd Pabaidd, i ddychwelyd Pab trwy rym arfau.

FRANCKFORT

Nid yw penderfyniadau y Senedd yn Franckfort wedi rhodi cwbl foddhâd i'r gwahanol deyrnasoedd Almaenaidd ag sydd i ffurfio yr Undeb Cenhedlaethol. Cyttunwyd ar fod y Pennaeth Ymherodrol i gael ei ddewis am dymmor terfynedig. Os cynnygir y goron i Frenin Prwssia (fel mae sisial y bwriedir) yr ydys yn deall y bydd Swyddog llys Awstria i ymadael yn y man; ac y bydd i swyddog Prydain Fawr hefyd ddatgan ei anghymeradwyaeth.

PRWSSIA

Dywedir fod yr etholiadau i'r ail dŷ, wedi bod yn mhob man yn dra ffafriol i'r blaid weriniaethol *(democratical)*; gymmaint felly fel y mae yn bur debygol y bydd yr *Assembly* newydd mor groes i ewyllys y Brenin â'r un o'r blaen.

FFRAINGC

Yr anghydfod y cyfeirem atto yn ein Rhifyn diweddaf, rhwng Gweinyddiaeth Louis Napoleon a'r *National Assembly*, a barhäodd dros ryw ennyd, er mawr gryfhâu ymbleidiaeth yn Paris a pheryglu heddwch cyffredinol y Weriniaeth.

Nos Sadwrn y 3ed o Chwefror dygodd yr yr wrthblaid yn yr *Assembly* gynnygiad yn mlaen yn condemnio gwaith y llywodraeth yn meddiannu holl Paris â'r byddinoedd, fel y gwnelsid ar y 28ain o Ionawr. Wedi dadl faith a hynod o fywiog, ac er i M. O. Barrot wneud araeth lew mewn amddiffyniad, llwyddodd y cynnygiad yn erbyn y Weinyddiaeth. Cafwyd 401 yn eu herbyn, tra nad oedd ond 387 drostynt. Mewn canlyniad i'r baeddiad hwn, y Gweinidogion a aethent yn ddioed i gynnyg rhoddi eu swyddi i fynu, fel y gallai y Llywydd ddewis eraill a fyddent yn fwy cyttunol a'r mwyaf rif yn yr Assembly; ond y Llywydd, mewn modd tra phenderfynol a attebai iddynt nas caniattai hyny. Ymddengys oddiwrth yr hyn a gymerodd le ar ôl llaw, y gwyddai y Llywydd yn ddigon da pa beth ydoedd yn ei gylch.

Dydd Llun drachefn adnewyddid y ddadl rhwng yr *Assembly* a'r Gweinidogion, pan ddaeth cynnygiad nos Sadwrn yr eilwaith dan ystyriaeth: pryd hyn gwrthodwyd y cynnyiad; ar ôl i'r Gweinidogion Cartrefol, M. Faucher wneud araeth yn dangos yr angenrheidrwydd anhebgorol oedd i'r Gweinidogion weithredu fel y gwnaethant yn yr amgylchiadau er sicrhau heddwch y wladwriaeth. Dywedai M. F. fod cydfradwriaeth gwirioneddol yn hanfodi, bod pennaethiaid clwbiau y *Socialists* yn Paris mewn cyngrair â'r rhai mewn amryw o'r trefydd taleithiol i ymarfogi ar y 29ain; ac mai yr unig beth a'u hattaliodd ydoedd parotöad milwraidd cryf y llywodraeth, a'u trefniad o'r fyddin ar y dydd crybwylledig. Ac felly pan rannwyd yr *Assembly* ar y cynnygiad, fe gafwyd fod mwyrif a 102 yn mhlaid y llywodraeth. O hyny allan y mae yr *Assembly* yn colli tir, ac y mae y Llywydd yn cyfodi yn uwch uwch yn ngolwg y wlad, ac mewn cymeradwyaeth gyd dynion deallus a fuasent o'r blaen yn barnu yn bur isel am ei alluoedd a'i gymhwysder i'w swydd. Dydd Mawrth canlynol, darfu i'r enwog Lamartine wneud araeth nerthol a chyffröus dros ben; cynghorai yr *Assembly* i roddi ffordd, ac i ddadgorffori mor gynted ag y gallent fyned trwy eu gorchwylion angenrheidiol. Tystiai fod ganddo yn awr gryn ymddiried yn y Llywydd, fel y gwr mwyaf cymmwys o bawb a adwaenai i weinyddu ei swydd bwysig; a chwanegai, er iddo wrthwynebu etholiad Louis Napoleon, ei fod yn barod i roddi ei wasanaeth iddo, er mwyn cael heddwch a llwyddiant yn Ffraingc.

Oddieithr y "gwerinolion cochion" *(red republicians)* y rhai ydynt yn bygwth o hyd, ymddengys fod y Ffrangcod yn gyffredin yn awyddus i gynnal llywodraeth Louis Napoleon. Nid yw yr *Assembly* bellach yn gwrthod dad-gorphori. Disgwylir y bydd yr etholiadau wedi myned heibio, a'r *Assembly* newydd i gyfarfod tua dechreu mis Mai nesaf.

MWNGLODDIAU AUR CALIFORNIA

Mae y llythyrau o California yn mynegi am ddarganfyddiadau newyddion o gloddfeydd mwy gwerthfawr fyth wedi eu gwneyd yn y goror euraidd yma. Yn ol y cyfrifion diweddaf yr oedd y cunnulliad yn cyrhaedd y swm o gan mil o ddollars yn y dydd, ac yn myned ar gynnydd yn barhaus, heb un arwydd dyhysbyddiad na therfyn arno.

GOFYNIAD

Fe ddarfu i dri dyn, sef Tomos, Shôn, a Dafydd gyduno i brynu maen llyfanu, yr hwn oedd werth 20 swllt; at ba achos fe dalodd Tomos 7 swllt; Shôn 8 swllt, a Dafydd 5 swllt. Y maen sydd 36 o fodfeddi yn dryfesur: a'r twll i dderbyn yr echel sydd 5 modfedd petrual. Y mae'r tri dyn i gael o draul y maen yn gyfartal f'r hyn a dalasant am dano. Y gofyniad yw, pwy faint o fodfeddau a'i rhaniadau yw trifesur y maen ar ôl i'r cyntaf, sef Tomos ddarfod a'i ran i roi lle i Shôn; a phwy faint, yr un modd, yw ei dryfesur ar ôl i Shôn ddarfod, i roi lle i Dafydd yr hwn sydd i gael ei draul hyd y cylch sy'n amgylchu twll yr echel?

Tyn y Wyg. T. R.

BARDDONIAETH.

I'R GWANWYN.

Darfu y gauaf dirfawr,—ei hirnos
A'i oerni dychrynfawr;
Ciliodd pan welodd haul wawr
Ei dywyllwch du hyllwawr.

'R huan o'i anian dda ini—a ddaeth
A'i ddethol oleuni,
A'i wres er ein lles yn lli,
Yn fwynaidd mae'n afoni.

Gwanwyn a ddaeth yn gynar,—a gwenu
Mae gwyneb ein daear:
Casglwyd i'w fedd cysglyd far
Y Gelyn heb ddim galar.

Agorodd pyrth y gweryd—y llysiau
Da llesiol a gyfyd;
Esgor mae'r ddae'r yn esgyd
Ar luniaeth bywioliaeth byd.

Pob blagur yn bur ei ben—a ddyrcha
'N ddiorchudd o'r ddaeren:
Derbyn maeth a wnaeth o nen
I ailfyw yn ei elfen.

Y garth ymhob parth a'r perthi—'n lwysgu
Gan lasgoed a lili,
Holl anian sydd yn lloni
O'i bron mewn harddwch a bri.

Gweirglodydd bronydd a bryniau—'n wyrddion
Mae'n harddwych y blodau,
A chaiff y dyn bryfyn brau
Bur eurglod beraroglau.

Dy enw Bor daionus—clydfwriad
Clodforer yn barchus:
Gwnaed dynion o'u bron mewn brys
Da hollol dy ewyllys.

J. THOMAS.

Penybont, Ceredigion.

CWYN YR UNIG.

(O'r Amserau.)

Ymddifad, unig oenig wyf,
A mynych glwyf a gefais;
Ac aml biccell tan fy mron,
Trwy lawer tôn y tynnais,

Annedwydd hynod ar bob tro.
Yn crwydro mewn anialwch;
A mynych syrthio i ryw fai,
Rhydd hyny drost'i dristwch.

Truenus hefyd iawn wyf fi,
Mewn cenlli o ofidiau;
Heb neb yn gwrando cwyn y gwan,
Anniddan yw fy nyddiau.

A'i byth yn unig rhaid i'm fod,
Yn gorfod ymofidio?
Herwydd mai bychan yw fy nerth,
Ar bob lle serth rwy'n syrthio.

Fe glywais am y Meddyg da,
Sy'n gwella pob afiechyd;
Ac yn *cyfodi'r* tlawd o'r llwch,
I heddwch a dedwyddyd.

Anturiaf innau at ei borth,
Am gymmorth a thrugaredd;
Pwy wyr na *chyfyd* Ef i'r lan,
Yr *unig*, egwan agwedd.

BLEDDYN.

Derbyniadau y Mis.—O; Amicus; O. Evans; T. S., Merthyr; Ceredig; D. T. C; D. Lewis; D. L. E; Plato; Syllderydd; Undodwr; ac Avonian.

AT EIN GOHEBWYR.

O.—Pell y'm ni o broffesu perffeithrwydd mewn dim ar a wnelom, neu a ddywettom, neu a ysgrifenom. Ond *gydâ* ein hamherffeithiau, ystyriwn mai rhydd i ni ddywedyd heb achos tramgwydd; nas gwnawn ond yr hyn a welom ni yn gyfiawn, *gan nad beth fyddo y canlyniad.* Byddai yn dda gennym pe bai Mr. Jones o Aberdâr i ysgrifenu i'r *Ymofynydd*, fel gynt; ac ar yr un telerau â'n cynhorthwywyr eraill.

Am Lythyr Mr. J. yn Rhifyn Hydref (diweddaf) os gelwir arnom i gydnabod i Mr. J. geisio gennym (neu fel yr oeddem ni yn ystyried, *caniattäu* i ni) adael allan yr hyn a ysgrifenasai efe o barthedd i'r "gweinidog parchus;" *gwnawn hynny yn rhwydd.* Ac y mae yn ddigon tebyg fod rhyw *wall* neu *ddiffyg* yn y dyfyniad a wnaem o eiriau Mr. Jones, Llangollen. Ond rhaid i ni gymmeryd cennad i ddweyd nas gwnaethom ddim o'r fath yn fwriadol.

T. S.—Byddwn yn ddiolchgar am yr Englynion y cyfeiria attynt.

D. T. C., &c.—Dymunem ochelyd rhoi tramgwydd i'n Gohebwyr; ond rhaid i ni farnu drostom ein hunain goreu gallwn.

GWALLAU.

Yn y Rhifyn presennol, tudal 52, *col.* 1. *a'r 4edd linell o'r gwaelod; yn lle "crefydd* gan *y rhieni," darllener, crefydd* GAU *y rhieni.*

Yn Rhifyn Ionawr, tudal 24. *y 7ed o'r "Englynion Coffadwriaethol;" yn lle, "Yn is is yn oesoedd;" darllener, Yn is is yn oes oesoedd. Yn yr "Englyn i'r Delyn," gan R. ab G. Ddu; yn lle, "areithfa, Yr wythfys a'r wythfawd;" darllener, Areithfa, Yr wythfys a'r* deufawd.